**Mesur Arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)**

## Memorandwm Esboniadol

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi'i baratoi gan yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ac fe'i gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae wedi'i baratoi a'i osod yn unol â Rheol Sefydlog 23.18. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn amlinellu'r cefndir i amcanion polisi, darpariaethau a chwmpas y Mesur arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) ("y Mesur arfaethedig"). Fe'i gosodwyd yn wreiddiol yn unol â Rheol Sefydlog 23.18 ar 14 Mehefin 2010 ac erbyn hyn mae Memorandwm diwygiedig wedi'i osod yn unol â Rheol Sefydlog 23.41.

## Datganiad yr Aelod

Yn fy marn i, byddai darpariaethau'r Mesur arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) a gyflwynwyd gennyf ar 14 Mehefin 2010 o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Huw Lewis AC**
Y Dirprwy Weinidog dros Blant
Yr Aelod Cynulliad sydd â gofal y Mesur arfaethedig.

11 Ionawr 2011

# CYNNWYS

## RHAN 1: Cefndir a Diben y Mesur Arfaethedig

1. Disgrifiad…………………………………………………………3
2. Y Cefndir Deddfwriaethol…………………………………………4
3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael………...7
4. Ymgynghori…………………………………………………………18
5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth…………………………………26

## RHAN 2: Asesiad Effaith Rheoleiddiol

1. Yr Opsiynau…………………………………………………………32
2. Costau a Manteision……………………………………………..39
3. Cymhwyso…………………………………………………………...49
4. Asesu Cystadleuaeth……………………………………………49
5. Cynlluniau Gweithredu…………………………………………...50
6. Adolygiad ôl-weithredol…………………………………………..52

## Atodiad A : Nodiadau Esboniadol

1. Cyflwyniad…………………………………………………………..53
2. Y Cefndir……………………………………………………………53
3. Adran 1: Dyletswydd i rhoi sylw dyledus i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn……………………………………………………..54
4. Adran 2: Cynllun y plant……………………………………………56
5. Adran 3: Llunio a cyhoeddi'r cynllun……………………………...57
6. Adran 4: Adroddiadau………………………………………………58
7. Adran 5: Dyletswydd i hybu gwybodaeth o'r Confensiwn…………59
8. Adran 6: Pŵer i ddiwygio deddfwriaeth etc………………………59
9. Adran 7: Cymhwyso i bobl ifanc…………………………………..60
10. Adran 8: Y confensiwn ar Hawliau'r Plentyn………………………62
11. Adran 9: Darpariaeth dehongli eraill…………………………………64
12. Adran 10: Gorchmynion……………………………………………...64
13. Adran 11: Cychwyn…………………………………………………..64
14. Adran 12: Enw byr …………………………………………………...65

## RHAN 1: Cefndir a Diben y Mesur Arfaethedig

### 1. Disgrifiad

1.1 Mae'r Mesur arfaethedig yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru a'r Prif Weinidog i roi sylw *dyledus* i'r hawliau a'r rhwymedigaethau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (y Confensiwn) a'i Brotocolau Dewisol, o 1 Mai 2012 hyd 30 Ebrill 2014 wrth wneud unrhyw benderfyniadau am lunio, adolygu neu newid polisïau neu am ddeddfwriaeth arfaethedig, ac yna, o 1 Mai 2014, wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau. At ddibenion y Confensiwn, ystyr "plant" yw'r rheini sy'n iau na 18 oed.

1.2 Mae'r Mesur arfaethedig hefyd yn gwneud darpariaeth gysylltiedig ynghylch:

- paratoi cynllun plant;
- adroddiadau ynglŷn â chydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol;
- hybu gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol;
- diwygio deddfwriaeth i roi effaith bellach neu effaith well i'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol; ac
- ymgynghori ar gymhwysiad posibl y Mesur arfaethedig i bobl sydd wedi troi'n 18 oed, ond heb droi'n 25 oed.

## 2. Y cefndir deddfwriaethol

2.1 Mae darpariaethau'r Mesur arfaethedig yn ymwneud â Mater 15.6 yn Rhan 1 Atodlen 5 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Ychwanegodd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol a Meysydd Eraill) 2008 (OS 2008/3131) y Mater hwnnw at Faes 15 (Lles Cymdeithasol) yn Atodlen 5. Daeth y mater i rym ar 11 Rhagfyr 2008:

Mater 15.6

*Cydweithredu a threfniadau i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant neu bersonau ifanc.*

*Mae'r mater hwn yn berthnasol i gydweithrediad gan, a threfniadau a wneir gan-*

*(a) awdurdodau cyhoeddus y mae eu prif swyddogaethau'n ymwneud ag unrhyw un neu fwy o'r meysydd yn y rhan hon;*

*(b) awdurdodau heddlu a phrif swyddogion yr heddlu ar gyfer ardaloedd yr heddlu yng Nghymru;*

*(c) Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain;*

*(ch) byrddau prawf lleol ar gyfer ardaloedd yng Nghymru;*

*(d) yr Ysgrifennydd Gwladol, mewn perthynas â swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 2 a 3 o Ddeddf Rheoli Tramgwyddwyr 2007, neu unrhyw ddarparydd gwasanaethau prawf o dan drefniadau a wnaed o dan adran 3(2) o'r Ddeddf honno;*

*(dd) timau troseddau ieuenctid ar gyfer ardaloedd yng Nghymru;*

*(e) llywodraethwyr carchardai, sefydliadau tramgwyddwyr ifanc neu ganolfannau hyfforddi diogel yng Nghymru (neu, yn achos carchardai, sefydliadau tramgwyddwyr ifanc neu ganolfannau hyfforddi diogel sydd wedi'u contractio allan neu rannau o sefydliadau o'r fath, a'r rhannau hynny wedi'u contractio allan, eu cyfarwyddwyr);*

*(f) personau ac eithrio awdurdodau cyhoeddus sy'n ymgymryd â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â llesiant plant neu bersonau ifanc.*

2.2 At ddibenion Mater 15.6, ystyr "plentyn" yw person nad yw wedi cyrraedd 18 oed, ac ystyr "pobl ifanc" yw pobl sydd wedi cyrraedd 18 oed, ond nid 25 oed.

2.3 Ystyr "llesiant" ym Maes 15, mewn perthynas â phlant a phobl ifanc unigol, yw llesiant mewn cysylltiad â'r canlynol:

a. iechyd a llesiant emosiynol,
b. amddiffyniad rhag niwed ac esgeulustod,
c. addysg, hyfforddiant a hamdden,

ch. y cyfraniad maent yn ei wneud i gymdeithas;
d. llesiant cymdeithasol ac economaidd,
dd. sicrhau eu hawliau.

2.4 Mae Gweinidogion Cymru a'r Prif Weinidog yn awdurdodau cyhoeddus y cyfeirir atynt ym mharagraff (a) y Mater.

2.5 Wrth wraidd y Mesur arfaethedig, mae darpariaethau a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud trefniadau fel y byddant hwy a'r Prif Weinidog yn cydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (y Confensiwn)[1] a'i Brotocolau Dewisol[2].

2.6 Mae'r Confensiwn (gan gynnwys ei Brotocolau Dewisol) yn gytundeb rhyngwladol sy'n nodi hawliau plant a'r rhwymedigaethau y mae'n rhaid i Bartïon Gwladwriaethau'r cytundeb eu cyflawni er lles iddynt. Mae'r hawliau a'r rhwymedigaethau yn y Confensiwn i gyd yn perthyn i un neu fwy o'r categorïau llesiant ym Maes 15. Diben y ddyletswydd yn y Mesur arfaethedig i roi sylw dyledus i'r Confensiwn, sy'n golygu bod angen i Weinidogion Cymru wneud trefniadau, yw diogelu a hyrwyddo llesiant plant fel y'i diffinnir ym Maes 15.

2.7 Bydd y Mesur arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio cynllun plant, gan amlinellu eu trefniadau ar gyfer cydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus. Gall y cynllun hefyd gynnwys materion eraill a gall ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adrodd ar y materion eraill hynny. Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gael cymeradwyaeth y Cynulliad ar gyfer y cynllun cyn iddynt allu ei lunio. Diben y darpariaethau hyn yw sicrhau bod y trefniadau sydd wedi'u gwneud i sicrhau y cydymffurfir â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol yn gadarn.

2.8 Bydd y Mesur arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio adroddiad o bryd i'w gilydd ar gydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol. Efallai y bydd cynllun y plant yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gyhoeddi adroddiadau ar weithrediad y cynllun neu faterion eraill a grybwyllir ynddo hefyd.

2.9 Gallai adroddiadau o'r fath dynnu sylw at amgylchiadau sy'n ei gwneud yn briodol diwygio'r ddeddfwriaeth mewn ffyrdd sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol datganoledig, er mwyn rhoi effaith bellach a gwell i'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol. Bydd y Mesur arfaethedig yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud diwygiadau o'r fath. Diben y darpariaethau hyn yw ei gwneud yn bosibl diwygio'r ddeddfwriaeth benodol honno, os bydd Gweinidogion Cymru yn nodi y dylid gwneud hynny, er mwyn rhoi effaith bellach a gwell i'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol, yn sgil defnyddio eu trefniadau i gydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i'r Confensiwn a'i

[1] http://www2.ohchr.org/english/law/crc.htm
[2] http://www2.ohchr.org/english/law/crc-sale.htm a http://www2.ohchr.org/english/law/crc-conflict.htm

Brotocolau Dewisol. Fodd bynnag, dim ond os yw'r diwygiadau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad y gellir eu gwneud.

2.10 Bydd adran 5 y Mesur arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud trefniadau i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol ymhlith y cyhoedd, gan gynnwys plant. Mae gwybodaeth am y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol a dealltwriaeth ohonynt ymhlith plant, oedolion a sefydliadau yn chwarae rhan bwysig iawn yn y gwaith o sicrhau bod yr hawliau a'r rhwymedigaethau y maent yn eu cynnwys yn cael eu parchu. Felly, prif ddiben y ddarpariaeth hon yw diogelu a hyrwyddo lles plant.

2.11 Diben adran 7 yw ei gwneud yn bosibl ehangu a/neu addasu'r trefniadau sydd wedi'u gwneud o dan y Mesur arfaethedig hwn i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, os bydd Gweinidogion Cymru yn dod i'r casgliad ei bod yn briodol gwneud hynny, fel y gallant hefyd ddiogelu a hyrwyddo lles pobl ifanc (y rheini sydd rhwng 18 a 24 oed). Bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried ac ymgynghori ar berthnasedd y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol i bobl ifanc, a chymhwysiad posibl y Mesur iddynt.

2.12 Mae darpariaethau'r Mesur arfaethedig o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## 3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

## Y Cefndir

3.1 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn[3], a gymeradwywyd gan y DU ym 1991 ac mae'r Protocolau Dewisol mewn perthynas ag ef yn gytundebau rhyngwladol. Maent yn nodi hawliau'r plant a'r rhwymedigaethau cysylltiedig y mae'n ofynnol i'r gwladwriaethau a fu'n rhan o'r cytundebau eu cyflawni.

3.2 Yn dilyn datganoli yng Nghymru, roedd mwy o ffocws ymhlith Gweinidogion Cymru o ran datblygu polisïau plant a phobl ifanc yng Nghymru. Yn 2002, datblygwyd y Saith Nod Craidd ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru, a oedd yn ceisio crynhoi egwyddorion ac erthyglau hanfodol y Confensiwn o dan saith pennawd. Mae'r amcanion craidd hyn wedi dod yn sylfaen i gynlluniau amlasiantaethol ar lefel genedlaethol a lleol ar gyfer gwasanaethau i blant a phobl ifanc 0-25 oed.

3.3 Yn 2004, ailddatganwyd yr amcanion hyn yn *Gweithredu'r Hawliau*[4]. Ym mis Ionawr 2004, cytunodd y Cynulliad Cenedlaethol drwy gynnig yn y Cyfarfod Llawn i fabwysiadu'r Confensiwn yn ffurfiol fel sail i'r gwaith o lunio polisi yn y maes hwn (plant a phobl ifanc). Ers hynny mae wedi'i ddefnyddio fel sylfaen mewn materion datganoledig o ran cynllunio a llunio polisi i blant a phobl ifanc, yn genedlaethol ac yn lleol ledled Cymru.

3.4 Mae polisi'r Saith Nod Craidd wedi helpu Llywodraeth y Cynulliad i symud oddi wrth ddull mwy traddodiadol o lunio polisi ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n seiliedig ar les i ddull mwy arloesol sy'n seiliedig ar hawliau.

3.5 Yn 2007 cyfrannodd Llywodraeth y Cynulliad i adroddiad parti'r wladwriaeth (y DU) i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ("Pwyllgor y CU"). Fel rhan o'i thystiolaeth ac mewn ymateb i nifer o gwestiynau atodol oddi wrth Bwyllgor y CU am y prif flaenoriaethau ar gyfer y dyfodol, cytunwyd ar 16 o flaenoriaethau i Gymru gan Lywodraeth y Cynulliad a chynrychiolwyr o Grŵp Monitro Cyrff Anllywodraethol Cymru ac fe'u cyflwynwyd i Bwyllgor y CU. Dyma'r blaenoriaethau:

I. Mynd i'r afael â thlodi ymhlith plant a phobl ifanc yng Nghymru;
II. Sicrhau sefyllfaoedd cadarnhaol i'r plant a'r teuluoedd sydd fwyaf agored i niwed;
III. Codi ymwybyddiaeth o'r Confensiwn ymhlith plant ac oedolion;
IV. Lleihau'r bwlch rhwng polisi a chanlyniadau go iawn i blant a phobl ifanc;
V. Gwella lefel cyflawni pob plentyn a pherson ifanc ym maes dysgu;
VI. Cefnogi'r cysyniad o sicrhau lles emosiynol pob plentyn a pherson ifanc;

[3] http://www2.ohchr.org/english/law/crc.htm
[4] Gweithredu'r Hawliau - http://www.assemblywales.org/N0000000000000000000000000016990.pdf

VII. Gwella cyfleoedd pob plentyn a pherson ifanc i chwarae'n ddiogel;
VIII. Cynyddu'r cyfleoedd i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru gymryd rhan mewn penderfyniadau ar faterion sy'n effeithio arnynt hwy;
IX. Gweithio i ddileu gwahaniaethu yn erbyn plant a phobl ifanc ag anableddau; hwyluso eu mynediad i wasanaethau a chymorth;
X. Gweithio i'w gwneud yn anghyfreithlon cosbi plant a phobl ifanc yn gorfforol ym mhob sefyllfa;
XI. Gweithio i ddiddymu bwlio, gan gynnwys bwlio homoffobig;
XII. Gweithio i sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n ffoaduriaid ac yn ceisio lloches yng Nghymru yn gallu gweithredu ar eu hawliau dynol a'u hawliau yn ôl y Confensiwn;
XIII. Gweithio i ddiddymu gwahaniaethu/anghydraddoldeb ymhlith plant a phobl ifanc;
XIV. Gweithio i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru (ee ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf) yn gallu mwynhau eu holl hawliau dynol a'u hawliau yn ôl y Confensiwn;
XV. Bod yn fwy agored ynghylch cyllidebu ar gyfer plant a phobl ifanc ar lefel Llywodraeth y Cynulliad; a
XVI. Gweithio i sicrhau bod plant a phobl ifanc o Gymru yn y System Cyfiawnder Troseddol yn gallu gweithredu ar eu hawliau dynol a'u hawliau yn ôl y Confensiwn.

3.6 Tynnwyd sylw at nifer o feysydd i'r Confensiwn weithredu ymhellach arnynt yn adroddiad Sylwadau Clo dilynol Pwyllgor y CU ar gyfer parti'r wladwriaeth yn 2008[5]:

> *"The Committee welcomes the fact that the Convention has been referred in the Seven Core Aims for children and young people in Wales…..however the Committee remains concerned that the Convention is not regularly used as a framework for the development of strategies……..and at the lack of an overarching policy to ensure the full realisation of principles, values and goals of the Convention"*
> (Sylw Clo rhif 14),

3.7 Gwnaeth Pwyllgor y CU y Sylwadau Clo canlynol hefyd:

> *"the Committee remains concerned that the principles of the Convention are not duly taken into account in all pieces of legislation"*
> (Sylw Clo rhif 10),

[5] Sylwadau Clo Pwyllgor y Confensiwn 2008
http://www2ohchr.org/english/bodies/crc/docs/AdvanceVersions/CRC.C.GBR.CO.4.pdf

*“and recommends that steps are taken across the UK State Party including in the devolved administrations to incorporate the Convention into domestic law”* (Sylw Clo rhif 11).

*“The Committee recommends that the State party continue to take measures to bring its legislation in line with the Convention. To this aim, the State party could take the opportunity given in this regard by the development of a Bill of Rights in Northern Ireland and a British Bill of Rights, and incorporate into them the principles and provisions of the Convention, e.g. by having a special section in these Bills devoted to child rights”*

Mae Sylwadau Clo eraill yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod polisi sy'n seiliedig ar hawliau i blant a phobl ifanc yn cael ei weithredu'n effeithiol.

*“The Committee encourages the State party to adopt comprehensive plans of action for the implementation of the Convention in all parts of the State party, in cooperation with the public and private sectors involved in the promotion and protection of children’s rights and based on a child right approach. In doing so, the State party should take into account the outcome document of the 2002 Special Session of the General Assembly of the United Nations “A world fit for children” and its Mid-Term Review in 2007. The Committee also recommends that the State party ensure adequate budget allocations and follow-up and evaluation mechanisms for the full implementation of the plans of action to regularly assess progress achieved and identify possible deficiencies. These plans should pay special attention to children belonging to the most vulnerable groups”.*
(Sylwadau Clo 15)

*“The Committee recommends that the State party encourage the active and systematic involvement of civil society, including NGOs and associations of children, in the promotion and implementation of children’s rights, including, inter alia, their participation in the planning stage of policies and cooperation projects, as well as in the follow-up to the concluding observations of the Committee and the preparation of the next periodic report”* (Sylw Clo 23)

*“The Committee recommends that the State party further strengthen its efforts, to ensure that all of the provisions of the Convention are widely known and understood by adults and children alike* ….” (Sylw Clo 21)

3.8 Yng ngoleuni'r argymhellion hyn, mae Llywodraeth y Cynulliad yn awyddus i adeiladu ymhellach ar y cynnydd hwn a chryfhau ei hymrwymiad i ofynion y Confensiwn a'i bolisi ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n seiliedig ar hawliau.Mae datganoli mwy o bwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006[6] wedi'i gwneud yn bosibl i Lywodraeth y Cynulliad

[6] http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2006/en/ukpgaen_20060032_en_1

ystyried deddfu ar ei dull o lunio polisi ar gyfer plant a phobl ifanc na fu'n bosibl o'r blaen.

3.9 Wrth gydnabod potensial y pwerau newydd i hyrwyddo'r dull hwn o lunio polisi a'r cyfleoedd deddfwriaethol sydd ar gael, yn natganiad deddfwriaethol Prif Weinidog Cymru i'r Cynulliad ym mis Gorffennaf 2009, ymrwymodd i geisio ystyried ymhellach y posibilrwydd o gyflwyno Mesur i wneud egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn rhan o ddeddfwriaeth ar ran plant Cymru. Dywedodd fod yr egwyddorion hynny, a fynegir yn ein saith nod craidd, eisoes yn sail i bolisi plant yng Nghymru, a'i fod yn bwriadu iddynt fod yn sail i waith pellach i gadarnhau a diwygio'r gyfraith sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc.

3.10 At hynny, mewn ymateb i gasgliadau/sylwadau Pwyllgor y CU, datblygodd Llywodraeth y Cynulliad gynllun gweithredu treigl 5 mlynedd, "*Gwneud Pethau'n Iawn* 2009"[7]. Cyhoeddwyd hwn ym mis Tachwedd 2009 ac mae’n nodi 90 o gamau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd neu’n eu cynnig mewn ymateb i’r Sylwadau Clo o fewn cymhwysedd datganoledig. Yn y lle cyntaf, gwneir gwaith mewn 16 prif faes y cytunwyd arnynt fel blaenoriaethau i Gymru (gweler paragraffau 3.5 uchod).

3.11 O gofio bod polisi Llywodraeth y Cynulliad ar y Confensiwn a'i Saith Nod Cradd fel y disgrifir uchod wedi bod yn eu lle ers nifer o flynyddoedd, mae llawer o waith eisoes wedi'i wneud a bydd y Mesur yn ysgogiad pellach i symud ymlaen yn fwy yn y maes hwn fel rhan o ddull strategol o warchod a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc.

3.12 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried mai'r Mesur yw elfen ganolog ei hymrwymiad parhaus i gyflawni amcanion y Confensiwn yn raddol a'i dull o ddatblygu polisi ar gyfer plant a phobl ifanc yn seiliedig ar hawliau. Mae’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn Rhan 2 y Memorandwm Esboniadol hwn yn amlinellu’r opsiynau a ystyriodd Llywodraeth y Cynulliad er mwyn cynnal neu ychwanegu at yr ymrwymiadau hyn. Y Mesur arfaethedig yw Opsiwn 3 yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

## Amcanion

### *Bwriad y Mesur arfaethedig*

3.13 O gofio cryfder ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i'r Confensiwn a sylwadau clo diweddaraf Pwyllgor y CU, mae'n ystyried bod y Mesur hwn yn gyfle gwych i Gymru ddefnyddio ei phwerau deddfu datganoledig i gryfhau ei dulliau o lunio polisi ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n seiliedig ar hawliau, gan ddefnyddio'r hawliau sylfaenol yn y Confensiwn fel fframwaith ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol.

---

[7] http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/gettingitright2009/?skip=1&lang=cy

3.14 O 1 Mai 2012, wrth greu'r Mesur arfaethedig, bydd Gweinidogion Cymru a'r Prif Weinidog yn ystyried gofynion y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol wrth wneud penderfyniadau am ddatblygu, adolygu neu newid polisïau ac am ddeddfwriaeth arfaethedig. Yna, o 1 Mai 2014, wrth greu'r Mesur arfaethedig, bydd Gweinidogion Cymru a'r Prif Weinidog yn ystyried y gofynion hynny wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau. Yr amcan yw sicrhau bod y gofynion hynny yn cael lle mwy blaenllaw fyth mewn perthynas â materion datganoledig yng Nghymru nag a fu'n wir hyd yn hyn.

**Adran 1 - Dyletswydd i roi sylw dyledus i'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol**

3.15 Fel y dull canolog o sicrhau bod hyn yn digwydd, bydd y Mesur arfaethedig yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru a'r Prif Weinidog i roi sylw dyledus i'r hawliau a'r rhwymedigaethau yn y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol. Effaith adran 1(2) ac 1(3) yw, yn ystod y cyfnod rhwng 1 Mai 2012 a 30 Ebrill 2014, cymhwyso'r ddyletswydd hon i roi sylw dyledus i'w penderfyniadau am ddatblygu, adolygu neu newid polisïau a'u penderfyniadau am ddeddfwriaeth arfaethedig. Effaith adran 1(1) yw, o 1 Mai 2014, y bydd y ddyletswydd hon i roi sylw dyledus yn berthnasol i Weinidogion Cymru a'r Prif Weinidog o ran arfer eu swyddogaethau. I bobl ifanc dan 18 oed y mae'r hawliau yn y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol yn berthnasol.

3.16 Law yn llaw â'r ddyletswydd ganolog hon mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio cynllun plant sy'n nodi:

- Trefniadau Gweinidogion Cymru i sicrhau y cydymffurfir â'r ddyletswydd ganolog i roi "sylw dyledus";
- Unrhyw ofynion o ran cynnwys ac amseru adroddiadau sy'n ymwneud â sut mae Gweinidogion Cymru wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus;
- Cynigion ar gyfer ymgynghori ar y posibilrwydd o gymhwyso'r Mesur i'r ystod oedran 18-24 (fel y nodir yn Adran 7);
- Unrhyw faterion eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol eu cynnwys.

3.17 Bydd y ddyletswydd yn golygu y bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru a'r Prif Weinidog ystyried pa hawliau a dyletswyddau yn y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol sy'n berthnasol i'r penderfyniad dan sylw, ac ystyried p'un a allant, drwy'r penderfyniad, roi effaith well i'r hawliau a'r dyletswyddau yn y Confensiwn a sut y gallant wneud hynny. Bydd yn rhaid iddynt bwyso a mesur yr ystyriaethau hyn ochr yn ochr â ffactorau perthnasol eraill.

3.18 Bydd y Mesur arfaethedig yn gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru yn unig, ac ni osodir dyletswyddau ar gyrff eraill. Ond mae llawer o bwerau Gweinidogion Cymru yn arferadwy mewn perthynas â gwaith cyrff eraill. Felly, mae potensial i'r cydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus effeithio'n anuniongyrchol ar gyrff eraill. Er enghraifft, pe bai Gweinidogion Cymru yn llunio deddfwriaeth a oedd yn gosod dyletswyddau ar gorff arall, byddai'n ofynnol iddynt roi sylw dyledus i ofynion y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol

yn y broses. Gallent lunio'r dyletswyddau hynny mewn ffordd benodol am eu bod yn rhoi sylw dyledus i'r gofynion hynny.

3.19 Amlinellir gofynion y Confensiwn at ddiben y Mesur hwn yn yr Atodlen i'r Mesur sy'n tynnu i lawr destun y rhwymedigaethau a'r hawliau sylfaenol a amlinellir yn y Confensiwn a'r Protocolau Dewisol. Amlinellir yr hawliau a'r rhwymedigaethau hynny yn erthyglau 1 i 41 (hy Rhan 1) y Confensiwn[8]; erthyglau 1 i 7 y Protocol Dewisol ar gynnwys plant mewn gwrthdaro arfog ac erthyglau 1 i 10 y Protocol Dewisol ar werthu plant, puteindra plant a phornograffi plant.

3.20 Llofnododd Llywodraeth y DU y Protocol Dewisol ar Wrthdaro Arfog ar 7 Medi 2000 ac fe'i cadarnhaodd ar 24 Mehefin 2003. Ar 7 Medi 2000, llofnododd Llywodraeth y DU y Protocol Dewisol ar Werthu Plant ac ati a'i gadarnhau ar 20 Chwefror 2009.

## Adrannau 2 a 3 - Cynllun y plant

3.21 Rhaid gosod fersiwn ddrafft o gynllun y plant y cyfeirir ato ym mharagraff 3.16 gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo cyn y gall Gweinidogion Cymru ei lunio. Cyn i'r drafft gael ei osod gerbron y Cynulliad, bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru gynnwys rhanddeiliaid yn y gwaith o ddatblygu'r cynllun drafft, cyhoeddi'r drafft ac ymgynghori â'r cyhoedd yn ei gylch. Rhaid i'r broses o gynnwys rhanddeiliaid yn y gwaith o ddatblygu'r cynllun drafft a'r ymgynghori yn ei gylch gynnwys plant a phobl ifanc, Comisiynydd Plant Cymru ac unrhyw bobl neu gyrff eraill y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn briodol.

3.22 Pwrpas cynllun y plant yw sicrhau tryloywder y prosesau a ddilynir i gydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus, a bod y prosesau hynny yn rhai cadarn; cânt eu profi drwy ymgynghoriad a bydd yn rhaid iddynt fod yn dderbyniol i'r Cynulliad. Ein bwriad yw i'r trefniadau nodi'r hyfforddiant sy'n ofynnol ar draws Llywodraeth y Cynulliad, sut caiff graddau cydymffurfio â'r ddyletswydd ei fonitro a sut rhoddir adroddiad arno. Bydd y gwaith hwn yn galw am ddull gweithredu ar draws Llywodraeth y Cynulliad i ystyried safbwyntiau'r holl adrannau wrth ddatblygu'r trefniadau mwyaf effeithiol.

3.23 Bydd yn ofynnol i'r cynllun nodi hefyd:

a) Unrhyw ofynion o ran cynnwys ac amseru adroddiadau sy'n ymwneud â sut mae Gweinidogion Cymru wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus;

b) Cynigion Gweinidogion Cymru ar gyfer ymgynghori ar y posibilrwydd o gymhwyso'r Mesur i'r ystod oedran 18-24 (fel y nodir yn Adran 7);

[8] http://www2.ohchr.org/english/law/crc.htm

c) Unrhyw faterion eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol eu cynnwys.

3.24 Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i sicrhau bod cefnogaeth eang i'w hagwedd at gydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus. Mae'n ystyried ei bod yn briodol, yn y cyd-destun hwn, i'r Cynulliad gael cyfrannu'n uniongyrchol at yr ystyriaeth hon ac y dylai allu tynnu ei gydsyniad yn ôl os oes ganddo bryderon dilys am y dull a gynigir.

3.25 Mae'r Mesur arfaethedig yn cynnwys darpariaeth ar i gynllun y plant a newidiadau a wneir iddo yn ystyried adroddiadau, argymhellion a dogfennau eraill gan Bwyllgor y CU.

3.26 Cyn i Weinidogion Cymru wneud, ail-wneud neu adolygu'r Cynllun, bydd yn ofynnol iddynt roi sylw i:

(i) unrhyw adroddiad gan Bwyllgor y CU a gaiff ei lunio o dan erthygl 44(5) y Confensiwn[9] – mae hyn yn golygu adroddiadau chwemisol y Pwyllgor i Gynulliad Cyffredinol y CU;

(ii) unrhyw astudiaeth a gynhelir dan erthygl 45(c) y Confensiwn[10] – mae hyn yn golygu astudiaethau y gwneir cais amdanynt gan y Pwyllgor mewn argymhelliad gan y Pwyllgor i Gynulliad Cyffredinol y CU; ac

(iii) unrhyw adroddiadau eraill, Sylwadau Cyffredinol ac ati a gyhoeddir gan y Pwyllgor sy'n ymwneud â rhoi'r Confensiwn neu'r Protocolau Dewisol ar waith gan y y DU.

3.27 O fewn chwe mis i weld Pwyllgor y CU yn gwneud argymhelliad neu awgrym ar sail un o adroddiadau cyfnodol y DU i'r Pwyllgor am gynnydd yn y DU i roi effaith i'r hawliau yn y Confensiwn, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried a ddylid newid eu cynllun plant yng ngoleuni'r awgrym neu'r argymhelliad hwnnw.

3.28 Bydd yn rhaid i'r newidiadau arfaethedig i'r cynllun gynnwys rhanddeiliaid yn y gwaith datblygu, bydd yn rhaid eu cyhoeddi ac ymgynghori arnynt a bydd yn rhaid i'r Cynulliad eu cymeradwyo.

3.29 Rhaid gosod y drafft o'r cynllun plant cyntaf gerbron y Cynulliad ar 31 Mawrth 2012 neu cyn hynny. Mae'r terfyn amser ar gyfer gosod y drafft wedi'i ddewis fel bod digon o amser i ddatblygu'r trefniadau a nodir yn y cynllun, cyhoeddi'r cynllun drafft ac ymgynghori arno ac yna gymryd camau i weithredu'r trefniadau, fel y gellir eu rhoi ar waith o'r adeg pan fydd Gweinidogion Cymru yn llunio'r cynllun yn dilyn cymeradwyaeth y Cynulliad.

**Adran 4 - Adroddiadau am gydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus**

[9] http://www2.ohchr.org/english/law/crc.htm
[10] http://www2.ohchr.org/english/law/crc.htm

3.30 Mae'r Mesur arfaethedig yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymu i adrodd bob pum mlynedd ar sut maent hwy a'r Prif Weinidog wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus. Rhaid i'w hadroddiad cyntaf gael ei lunio erbyn 31 Ionawr 2013 fan bellaf. Mae'r terfyn amser ar gyfer yr adroddiad cyntaf a'r cyfnodau adrodd dilynol wedi'u dewis i gydymffurfio â'r cyfnodau y bydd y DU yn rhoi adroddiad i Bwyllgor y CU ar gynnydd yn y DU. Byddai hyn yn caniatáu i adroddiad Gweinidogion Cymru gael ei gynnwys yn adroddiad y DU.

3.31 Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd cynllun y plant yn newid y cyfnod adrodd ar gyfer adroddiadau Gweinidogion Cymru. Gellid defnyddio'r ddarpariaeth hon pe bai, er enghraifft, y cyfnodau ar gyfer adroddiad y DU i Bwyllgor y CU yn newid, neu pe ystyrid ei bod yn briodol i Weinidogion Cymru roi adroddiadau yn amlach.

3.32 Bydd yn rhaid cyhoeddi adroddiadau Gweinidogion Cymru a'u gosod gerbron y Cynulliad.

**Adran 5 – Dyletswydd i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol**

3.33 Bydd y Mesur arfaethedig yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymryd camau priodol i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd (gan gynnwys plant) ynghylch y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol. Bwriad y ddyletswydd hon yw rhoi effaith i rwymedigaethau yn erthygl 42 y Confensiwn ac erthygl 6 (2) y Protocol Dewisol ar ran plant mewn gwrthdaro arfog.

3.34 Fodd bynnag, mae'r ddyletswydd yn mynd ymhellach na'r rhwymedigaethau hynny gan ei bod yn galw ar i gamau gael eu cymryd i hybu gwybodaeth *a dealltwriaeth* ynghylch y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol. Mae gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol ymhlith plant, oedolion a sefydliadau yn bwysig iawn wrth sicrhau bod yr hawliau a'r rhwymedigaethau ynddynt yn cael eu parchu.

3.35 Mae'n glir o'r dystiolaeth a gyflwynwyd a sylwadau clo Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn (2008)) bod lefelau gwybodaeth am y Confensiwn a'i brotocolau dewisol ac ymwybyddiaeth ohonynt yn isel yng Nghymru. Mae'r ddarpariaeth benodol hon o fewn y Mesur arfaethedig yn ceisio mynd i'r afael â'r diffyg hwn drwy roi dyletswydd uniongyrchol ar Weinidogion Cymru.

**Adran 6 – Pŵer i ddiwygio deddfwriaeth**

3.36 Mae'r Mesur arfaethedig yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i lunio Gorchymyn sy'n diwygio deddfwriaeth neu Offerynnau uchelfreiniol eraill, os dônt i'r casgliad mewn adroddiad y maent yn ei gyhoeddi o dan y Mesur arfaethedig, y byddai'n ddymunol gwneud hynny er mwyn rhoi effaith bellach neu effaith well i'r hawliau a'r rhwymedigaethau yn y Confensiwn neu ei

Brotocolau Dewisol. Dim ond gwelliannau y byddai gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol i'w gwneud ei hun y gallant eu gwneud. Rhaid iddynt ymgynghori â chyrff a phersonau y maent yn eu hystyried yn briodol cyn defnyddio'r pŵer.

**Adran 7 – Cymhwyso'r Mesur i bobl ifanc**

3.37 Mae'r Mesur arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried, a nodi yn eu cynllun plant cyntaf (fel y nodir yn 3.25 uchod), eu cynigion ar gyfer ymgynghori ynghylch a ddylid derbyn y canlynol, i ba raddau a pha welliannau y dylid eu gwneud:

a) gallai gofynion y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol fod yn berthnasol i bobl sydd wedi cyrraedd 18 oed ond nad ydynt eto yn 25 oed; a

b) gellid cymhwyso'r Mesur arfaethedig i'r grŵp oedran hwnnw.

3.38 Mae'r Mesur arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad o'u casgliadau ar y materion uchod.

3.39 Mae'r Mesur arfaethedig yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru lunio gorchymyn sy'n cymhwyso darpariaethau'r Mesur arfaethedig i'r grŵp oedran hwnnw, gydag addasiadau os yw'n briodol, neu wneud darpariaeth arall i roi effaith, mewn perthynas â'r grŵp oedran hwnnw, i ofynion y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol. Bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi ac ymgynghori ar ddrafft o'u gorchymyn, a bydd yn rhaid dilyn gweithdrefn gadarnhaol uwch y Cynulliad mewn perthynas ag ef (gweler adran 5 o Ran I y Memorandwm Esboniadol hwn i gael mwy o wybodaeth am y weithdrefn).

3.40 Caiff Gweinidogion Cymru, wrth ymgynghori ar y materion a grybwyllir ym mharagraff 3.39, ymgynghori ar unrhyw fater arall sy'n ymwneud â phobl ifanc sydd yn eu barn hwy yn briodol.

3.41 Bydd y Mesur yn ategu ac yn cadarnhau ymhellach y dull o lunio polisi ar gyfer plant a phobl ifanc, yn seiliedig ar hawliau, sy'n unigryw i Gymru ac a ddefnyddir ers 2000, ac a nodir yn nogfennau polisi amrywiol Llywodraeth y Cynulliad gan gynnwys "Ymestyn Hawliau: cynorthwyo pobl ifanc o 11 i 25 oed yng Nghymru" 2002[11]; "Fframwaith ar gyfer Partneriaeth"[12] (2000), "Gweithredu'r Hawliau"[13] 2004, "Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau"[14] (2006) a "Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau"[15] (2007)

---

11 http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/policy_strategy_and_planning/extendingentitlement/eepublications/supportyoungpeople;jsessionid=pMFYLyWQTwTGmHmJYQGwp1pk8VVcWTxjVsxc7B3n3QtP0KTGWWHZ!-2044494535?lang=en#

12 http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/childframeworkpartnership?skip=1&lang=cy

13 http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/090119rightsinactionen.pdf

14 http://wales.gov.uk/publications/circular/circulars2006/1552968/?skip=1&lang=cy

3.42 Mae dull trosfwaol Llywodraeth y Cynulliad o lunio polisi ar gyfer plant a phobl ifanc wedi'i gymhwyso'n fras i'r grŵp oedran 0-25 oed; gan ddiffinio "plant" fel rhai 0-10 oed a "pobl ifanc" fel rhai 11-25 oed ond heb gyrraedd 26 oed (yn unol â'r diffiniad yn a. 123(3) Deddf Dysgu a Medrau 2000[16]). At ddibenion y Mesur arfaethedig, diffinnir "person ifanc" fel y rheini sydd rhwng 18 a 24 oed ond heb gynnwys y rhai sy'n 25 oed, gan fod hyn yn unol ag ystyr "person ifanc" ym Mater 15.6 yn Rhan 1 Atodlen 5 Deddf Llywodraeth Cymru 2006[17].

3.43 Mae cymalau Cymraeg penodol yn Neddf Dysgu a Medrau 2000 (adrannau 123-126) yn nodi dyletswydd sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau cymorth ieuenctid i bobl ifanc 11-25 oed. Mae canllawiau statudol dilynol o dan Ymestyn Hawliau 2002 yn nodi 10 hawl i bobl ifanc yn yr ystod oedran hwn sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau cymorth ieuenctid. Gwasanaeth cymorth ieuenctid yw unrhyw wasanaeth sydd, ym marn Gweinidogion Cymru, yn annog, yn galluogi neu'n helpu pobl ifanc 11-25 oed, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i gymryd rhan yn effeithiol mewn addysg a hyfforddiant; manteisio ar gyfleoedd i gael cyflogaeth a chymryd rhan yn effeithiol ac yn gyfrifol ym mywyd eu cymunedau. Mae'r ddarpariaeth hon yn cydnabod yn llawn bod pobl ifanc yn datblygu'n wahanol a bod angen cymorth ychwanegol, efallai, ar bobl ifanc yn yr ystod oedran hwn i'w helpu i dyfu'n oedolion.

3.44 Mae Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau a Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau wedi nodi canllawiau statudol ar ddarpariaeth Gymraeg yn Neddf Plant 2004[18]. Mae hyn wedi digwydd yng nghyd-destun partneriaethau plant a phobl ifanc lleol a chynllunio ar gyfer yr ystod oedran 0-25. Mae'r canllawiau hyn yn nodi:

> *bod Llywodraeth y Cynulliad wedi mabwysiadu'r Confensiwn fel sylfaen ar gyfer ei holl ymwneud â phlant a phobl ifanc. Dylai Awdurdodau Lleol a'u partneriaid perthnasol roi ystyriaeth i'r hawliau hyn wrth ddarparu gwasanaethau*[19]

3.45 O safbwynt eu hoedran, natur yr hawliau sydd gan bobl ifanc 11-25 oed yng nghyd-destun polisi yng Nghymru a'r cyfnod o dyfu'n oedolyn, ystyrir ei bod yn briodol rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori ar y gofynion hyn ac ystyried sut gellir eu cysylltu drwy'r ddeddfwriaeth hon â'r polisi cyfredol a'r cyd-destun cynllunio yng Nghymru ar gyfer yr ystod oedran 0-25. Ar ôl cwblhau eu hymgynghoriad ac ar ôl ystyried, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad ar eu casgliadau a gosod yr adroddiad gerbron y Cynulliad. Yna gall y Gweinidogion benderfynu a ddylid cymhwyso'r

---

15 http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/sharedplanningforbetteroutcomes?skip=1&lang=cy

16 http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2000/en/ukpgaen_20000021_en_1

17 http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2006/en/ukpgaen_20060032_en_1

18 http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2004/en/ukpgaen_20040031_en_1

19 Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau 2007 paragraff 1.16

ddarpariaeth yn y Mesur arfaethedig mewn perthynas â'r grŵp oedran 18-24 neu wneud unrhyw ddarpariaeth arall yn briodol i roi effaith, mewn perthynas â'r grŵp oedran hwnnw, i ofynion Rhan 1 y Confensiwn a'r protocolau dewisol, i wneud y Mesur yn unol â'r cyd-destun polisi yng Nghymru.

3.46 Mae'r pŵer yn gyfyngedig, a thrwy ei arfer gellir gwneud darpariaeth o'r fath yn gyflymach heb yr angen i ddwyn Mesur arall yn ei flaen. Mae'r gofyniad i ymgynghori cyn gwneud gorchymyn o'r fath yn sicrhau y gellir rhoi ystyriaeth lawn i unrhyw gynnig gan Lywodraeth y Cynulliad (gan gynnwys pwyllgorau'r Cynulliad) cyn i'r gorchymyn gael ei wneud.

**Adran 8 – Y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn**

3.47 Mae Adran 8(1) a (2) a'r Atodlen yn nodi'r hawliau a'r rhwymedigaethau sylfaenol tuag at blant, sydd wedi'u cynnwys yn y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol. Mae dwy reswm dros nodi'r rhain yn yr Atodlen i'r Mesur arfaethedig.

3.48 Yn gyntaf, mae'n helpu o ran tryloywder gan fod y darpariaethau perthnasol y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru a'r Prif Weinidog roi sylw dyledus iddynt wedi'u nodi mewn un man hwylus. Mae'r Mesur arfaethedig yn darparu mecanwaith (gweler isod yn adran y Memorandwm hwn ynghylch pwerau i lunio is-ddeddfwriaeth) i gadw cynnwys y rhannau perthnasol o’r Mesur arfaethedig, gan gynnwys yr Atodlen yn unol ag unrhyw newid i'r ffordd y cymhwysir y Confensiwn i'r DU.

3.49 Yn ail, mae bwriad i destun yr hawliau a'r dyletswyddau yn yr Atodlen fod yn rhan o'r gyfraith ddomestig sy'n berthnasol i Gymru at ddibenion y Mesur. Ychydig iawn o gyfraith achosion sydd ynghylch ystyr y rhwymedigaethau yn y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol, gan fod y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol yn gytundebau rhyngwladol rhwng gwladwriaethau. Cânt eu gorfodi gan wladwriaethau yn y Llys Cyfiawnder Rhyngwladol, ond ni all unigolion fynd ag achosion i'r Llys hwn i fynnu eu hawliau yn y Confensiwn neu ei Brotocolau Dewisol. Ychydig iawn o achosion a welwyd, felly.

3.50 Pe bai llys yn y DU yn dehongli hawl neu rwymedigaeth yn y Confensiwn neu ei Brotocolau Dewisol, ystyrir y byddai'n rhoi ystyriaeth i'r corff bach o gyfraith achosion y Llys Cyfiawnder Rhyngwladol ac na fyddai'n dehongli'r hawl neu'r rhwymedigaeth honno yng nghyd-destun y DU yn llai ffafriol i blentyn na dehongliad y Llys. Fodd bynnag, ein bwriad wrth gynnwys testun yr hawliau a'r rhwymedigaethau yn y Mesur arfaethedig, gan eu gwneud felly yn rhan o gyfraith ddomestig, yw caniatáu i'r llysoedd ddehongli'r hawliau a'r rhwymedigaethau fel rhan o gyfraith ddomestig, yng nghyd-destun penodol y DU.

## 4. Ymgynghori

4.1 Dechreuodd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Mesur drafft ar 17 Mawrth 2010 a daeth i ben ar 7 Mai 2010. Roedd y ddogfen ymgynghori, gan gynnwys drafft o'r Mesur arfaethedig, nid yn unig ar gael i'r cyhoedd mewn fformatau amrywiol, ond cafodd ei dosbarthu'n eang i randdeiliaid ac Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd, neu tynnwyd eu sylw ati,.

4.2 Ariannodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ddau ddigwyddiad ymgynghori hefyd, a gynhaliwyd yn y Gogledd a'r De ar 27 Ebrill a 4 Mai 2010 ac a gafodd eu cydgysylltu gan Uned Cefnogi Partneriaethau Llywodraeth Leol Cymru, a oedd yn cynnwys pobl o'r Ddraig Ffynci (Cynulliad plant a phobl ifanc Cymru) i'w hwyluso. Mynychwyd y digwyddiadau hyn gan dros 150 o blant, pobl ifanc ac oedolion.

4.3 Roedd y ddogfen ymgynghori hefyd ar gael drwy'r cynllun Ymgynghori Digidol sy'n cael ei dreialu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hyn yn caniatáu i'r cyhoedd gael gafael ar yr ymgynghoriad ac ymateb i'r ddogfen ymgynghori drwy deledu digidol, band eang symudol a Nintendo Wii. Roedd y cyfrwng hwn yn boblogaidd; mae cofnodion yn dangos bod yr wybodaeth ar y wefan am yr ymgynghoriad wedi'i gweld 2494 o weithiau.

4.4 Derbyniwyd cyfanswm o 67 o ymatebion, gan gynnwys adroddiadau o'r ddau ddigwyddiad a gynhaliwyd yn y Gogledd a'r De. Mae'r holl ymatebion ar gael yn:
http://new.wales.gov.uk/consultations/education/righsofchildrenyoung/?skip=1&lang=cy&status=closed

4.5 Ystyriodd Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd y Mesur arfaethedig drafft, casglodd dystiolaeth a chyflwynodd ei sylwadau i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Cwmpas y Ddyletswydd i roi Sylw Dyledus i'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol**

4.6 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gwrthwynebu'r cynnig mai dim ond pan oedd Gweinidogion Cymru neu'r Prif Weinidog yn arfer swyddogaethau (perthnasol) a oedd i'w pennu yng nghynllun y plant y dylai'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol fod yn berthnasol. Y farn oedd bod dull o'r fath yn methu cydnabod natur "gyfannol" y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol; hynny yw, y ffaith bod yr hawliau a'r rhwymedigaethau y maent yn eu cynnwys yn ddibynnol ar ei gilydd ac na ellir gwahanu un oddi wrth y llall.

4.7 Nododd nifer o ymatebwyr hefyd fod gan nifer o adrannau'r llywodraeth ran i'w chwarae yn aml yn y gwaith o roi effaith i unrhyw hawl neu rwymedigaeth benodol. Pe byddai'r ddyletswydd i roi sylw dyledus yn berthnasol i rai swyddogaethau'n unig, ni fyddai'r ddeddfwriaeth yn annog Gweinidogion Cymru a'r Prif Weinidog i feddwl am ddefnyddio'u swyddogaethau mewn ffordd "gyfannol".

4.8 Mynegodd nifer o ymatebwyr y pryder hefyd y gallai cymhwyso'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i'r gwaith o arfer y swyddogaethau a bennir yng nghynllun y plant yn unig arwain at ddiystyru hawliau plant mewn meysydd eraill o waith Llywodraeth y Cynulliad.

4.9 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cydnabod y pryderon hyn ac wedi diwygio'i chynnig o ganlyniad. Bydd y Mesur arfaethedig yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru a'r Prif Weinidog i roi sylw dyledus i'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol, wrth wneud penderfyniadau strategol am sut i arfer swyddogaethau sy'n arferadwy ganddynt.

4.10 Bydd y ddyletswydd hon yn effeithio ar bob maes o waith Llywodraeth Cynulliad Cymru. Pryd bynnag y bydd Gweinidogion Cymru neu'r Prif Weinidog yn gysylltiedig â gwaith cynllunio strategol am sut i ddefnyddio eu swyddogaethau, mae'n rhaid iddynt roi sylw dyledus i ofynion y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol. Y bwriad yw y bydd y ddyletswydd yn gwarchod y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol fel rhan o'r fframwaith ar gyfer datblygu strategaethau (gan gynnwys strategaethau sy'n gwneud defnydd o bwerau neu gynigion is-ddeddfwriaeth ar gyfer Mesurau'r Cynulliad) a pholisïau Gweinidogion Cymru a'r Prif Weinidog.

4.11 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ystyried a ddylai'r ddyletswydd i roi sylw dyledus fod yn berthnasol i bopeth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud. Ei chasgliad yw na fyddai'n briodol.

4.12 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn na fyddai'n briodol rhoi sylw dyledus i'r Confensiwn gyda phenderfyniadau lled-farnwrol er enghraifft (ee penderfyniad ar apêl gynllunio), na phenderfyniad i ddiswyddo aelod penodol o'r staff, na phenderfyniad am sut i ymateb i lythyr cwyno. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried mai trwy ei phenderfyniadau strategol y gellir rhoi effaith bellach a gwell i'r hawliau a'r rhwymedigaethau yn y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol.

4.13 Dyna pam mae'r ddyletswydd arfaethedig ddiwygiedig yn berthnasol i *benderfyniadau strategol am sut i arfer swyddogaethau*, yn hytrach nag i'r *gwaith* o *arfer swyddogaethau* (adran 1 y Mesur arfaethedig).

**<u>Natur y Ddyletswydd i Roi Sylw Dyledus</u>**

4.14 Croesawodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y gofyniad i Weinidogion Cymru a'r Prif Weinidog roi "sylw dyledus" i'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol, er bod rhai ymatebwyr o'r farn y dylai'r ddyletswydd fod yn gryfach.

4.15 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i fod o'r farn mai'r ddyletswydd i roi sylw dyledus yw'r ddyletswydd fwyaf priodol. Bydd y ddyletswydd yn golygu y bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru a'r Prif Weinidog ystyried pa hawliau a dyletswyddau yn y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol sy'n berthnasol i'r maes neu'r meysydd cynllunio strategol dan sylw ganddynt, ac ystyried p'un a allant ddefnyddio'r swyddogaethau sy'n arferadwy ganddynt

hwy a sut, er mwyn rhoi effaith well i'r hawliau a'r rhwymedigaethau yn y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol.

4.16 Fodd bynnag, mae'r ddyletswydd i roi sylw dyledus yn ei gwneud yn ofynnol iddynt bwyso a mesur yr ystyriaethau hyn ochr yn ochr â ffactorau perthnasol eraill. Yn ein barn ni, ni ddylai rhoi effaith well i'r hawliau a'r rhwymedigaethau yn y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol, fel mater o egwyddor, gael blaenoriaeth dros ystyriaethau a dyletswyddau eraill y mae Gweinidogion Cymru a'r Prif Weinidog yn ddarostyngedig iddynt. Bydd y ddyletswydd i roi sylw dyledus yn golygu y bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru a'r Prif Weinidog roi'r pwysau sy'n briodol dan yr amgylchiadau penodol iddynt.

4.17 Dywedodd nifer o ymatebwyr nad oeddynt yn deall yr hyn yr oedd y ddyletswydd i roi "sylw dyledus" yn golygu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru a'r Prif Weinidog ei wneud. Dywedodd rhai y dylid mynegi hyn yn glir yn y Mesur. Mae "sylw dyledus" yn gysyniad sy'n ymddangos mewn deddfwriaeth arall (er enghraifft, cyfraith gwahaniaethu a chydraddoldeb) ac mae'r llysoedd wedi'i ystyried. Nid ydym yn ystyried ei bod yn briodol i'r Mesur arfaethedig gynnwys diffiniad o'i ystyr.

4.18 Fodd bynnag, fel rhan o'u trefniadau ar gyfer sicrhau y cydymffurfir â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus, bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru lunio canllawiau ar gyfer staff Llywodraeth Cynulliad Cymru ar sut i roi "sylw dyledus" i'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol. Gan fod y canllawiau hyn yn rhan o drefniadau Gweinidogion Cymru, bydd angen cyfeirio atynt yng nghynllun y plant.

**<u>Cynllun y plant</u>**

4.19 Yn sgil yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r newid o ganlyniad (a amlinellir uchod), ni fydd cynllun y plant bellach yn amlinellu swyddogaethau y bydd y ddyletswydd i roi sylw dyledus yn berthnasol iddynt. Fodd bynnag, bydd yn amlinellu trefniadau Gweinidogion Cymru at ddiben sicrhau y cydymffurfir â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus a’r meini prawf ar gyfer nodi penderfyniadau strategol am sut i arfer swyddogaethau. Fel o'r blaen, efallai y bydd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiadau ychwanegol a phennu materion y mae'n rhaid eu cynnwys mewn adroddiadau.

4.20 Cytunodd llawer o ymatebwyr y dylai fod yn rhaid i Weinidogion Cymru gael cytundeb Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn y gellid gwneud neu newid cynllun y plant. Rydym wedi cadw'r gofyniad pwysig iawn hwn yn y Mesur arfaethedig.

4.21 Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol wrth ddatblygu'r cynllun drafft cyn iddo gael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Nododd rhai ymatebwyr randdeiliaid penodol a ddylai fod yn rhan o'r broses yn eu barn hwy.

4.22 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod y bydd yn aml yn fanteisiol ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol wrth ddatblygu'r cynllun drafft neu wneud newidiadau iddo. Fodd bynnag, mae o'r farn na ddylai'r Mesur arfaethedig osod gofynion o ran pa bryd a sut y dylid gwneud hyn. Bydd hyn yn rhoi hyblygrwydd i wneud trefniadau ymgysylltu sy'n briodol i amgylchiadau penodol y cyfnod. Er enghraifft, pe byddai Gweinidogion Cymru yn gwneud newidiadau bach iawn i'r trefniadau yr oeddynt wedi'u hamlinellu yn y cynllun, efallai na fyddai'n briodol treulio amser a gwario arian ar ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol.

4.23 Bydd Gweinidogion Cymru o dan ddyletswydd, beth bynnag, i gyhoeddi ac ymgynghori ar y cynllun drafft a'r newidiadau i'r cynllun drafft.

4.24 Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai'r Mesur arfaethedig ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â rhanddeiliaid penodol eraill yn ogystal â Chomisiynydd Plant Cymru, plant a phobl ifanc ac unrhyw unigolion neu gyrff eraill sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru.

4.25 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn na ddylai'r Mesur fod yn fwy rhagnodol nag y mae ar hyn o bryd o ran â phwy y dylai Gweinidogion Cymru ymgynghori ar y cynllun drafft neu'r newidiadau iddo. Gallai’r rhanddeiliaid perthnasol newid dros gyfnod, a gallai gwahanol ymgyngoreion fod yn briodol yn dibynnu ar y newidiadau arfaethedig i'r cynllun. Mae angen i'r Mesur arfaethedig roi hyblygrwydd i ystyried hyn.

4.26 Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai'r Mesur arfaethedig nodi'n glir fod yn rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i'r ymatebion i'r ymgynghoriad ynglŷn â chynllun drafft y plant neu'r newidiadau iddo. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn nad oes angen gwneud darpariaeth yn y Mesur ynglŷn â hyn gan y bydd Gweinidogion Cymru o dan ddyletswydd yn unol â'r gyfraith gyhoeddus i ystyried yr ymatebion a rhoi sylw iddynt er mwyn penderfynu a ddylid newid eu cynllun drafft mewn ymateb.

4.27 Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai'r Mesur arfaethedig nodi y caiff rhanddeiliaid, Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu unigolion eraill wneud cais i'r cynllun gael ei ddiwygio. Yn ein barn ni, nid oes unrhyw beth yn y gyfraith sy'n atal ceisiadau o'r fath rhag cael eu gwneud fel rhan o brosesau busnes arferol rhanddeiliaid neu eraill. Felly, nid oes angen gwneud darpariaeth benodol yn y Mesur arfaethedig. Er enghraifft, gallai Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Cynulliad Cenedlaethol benderfynu craffu ar sut roedd y trefniadau yn y cynllun yn gweithredu a gallai gyhoeddi adroddiad gan argymell newidiadau i'r trefniadau yn y cynllun o ganlyniad. Byddai'n rhaid i Weinidogion Cymru roi ystyriaeth briodol i'r argymhellion gan y Pwyllgor beth bynnag.

4.28 Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai'r Mesur arfaethedig nodi y dylai digwyddiadau penodol, er enghraifft cyhoeddi'r casgliadau ymchwil, sbarduno Gweinidogion Cymru i ystyried a ddylid diwygio'r cynllun. Yn ein barn ni, ni ddylai'r Mesur arfaethedig wneud darpariaeth ynglŷn â hyn gan y byddai'n anodd iawn nodi a diffinio pob digwyddiad a allai fod yn berthnasol.

4.29 Nid oes unrhyw beth yn y gyfraith sy'n atal rhywun rhag tynnu sylw Gweinidogion Cymru neu'r Cynulliad Cenedlaethol at ddigwyddiad perthnasol penodol. Pe byddai achos cryf iawn dros newid y cynllun yn sgil y digwyddiad hwnnw, gallai Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ystyried y mater a gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru.

4.30 Mae'r Mesur arfaethedig eisoes yn gwneud darpariaeth i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried a ddylid newid y cynllun o fewn chwe mis ar ôl i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wneud awgrym neu argymhelliad mewn ymateb i un o adroddiadau cyfnodol y DU i'r Pwyllgor.

4.31 Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai'r ddarpariaeth hon ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rhywbeth mwy nag ystyried a ddylid newid y cynllun, megis cyhoeddi esboniad o'r camau yr oeddynt yn mynd i'w cymryd neu'r rhesymau pam nad oeddynt yn mynd i gymryd camau. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn na fyddai hon yn ddarpariaeth briodol i'w chynnwys yn y Mesur arfaethedig. Mae hawl gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i graffu ar y ffordd y mae Gweinidogion Cymru wedi ymateb i awgrym neu argymhelliad gan Bwyllgor y CU a galw am dystiolaeth.

4.32 Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn mai'r dyddiad erbyn pryd roedd yn rhaid gosod y drafft o gynllun cyntaf y plant gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru (1 Tachwedd 2011) oedd y dyddiad cywir. Roedd eraill o'r farn bod y dyddiad cau'n rhy fuan ac yn rhy optimistaidd. Gan mai'r cynnig diwygiedig yw y dylai'r ddyletswydd i roi sylw dyledus fod yn berthnasol i benderfyniadau strategol gan Weinidogion Cymru a'r Prif Weinidog am sut i arfer swyddogaethau, (ac felly'n effeithio ar bob maes o waith Llywodraeth Cynulliad Cymru), rydym wedi newid y dyddiad i 31 Mawrth 2012, sy'n ddyddiad mwy realistig yn ein barn ni (adran 3(6) y Mesur arfaethedig).

4.33 Bydd y ddyletswydd i roi sylw dyledus yn cychwyn drwy orchymyn yn fuan ar ôl y dyddiad y caiff cynllun y plant ei wneud. Bydd y dyddiad cau ar gyfer gosod y cynllun, sef 31 Mawrth 2012, yn rhoi amser i'r cynllun gael ei ddatblygu ac i gynnal ymgynghoriad arno, ac i'r trefniadau a amlinellir yn y cynllun gael eu rhoi ar waith ar draws Llywodraeth Cynulliad Cymru fel y gellir cydymffurfio â’r ddyletswydd i roi sylw dyledus yn fuan ar ôl i’r cynllun gael ei wneud.

**<u>Dyletswydd i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch y Confensiwn</u>**

4.34 Cytunodd nifer sylweddol o ymatebwyr y dylai Gweinidogion Cymru wneud mwy i helpu pobl (gan gynnwys plant a phobl ifanc) i gael mwy o wybodaeth am y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol a'u deall.

4.35 Mae'r ddyletswydd yn y Mesur arfaethedig wedi'i drafftio i roi effaith i'r ddyletswydd yn erthygl 42 y Confensiwn, ond i fynd ymhellach na'r ddyletswydd honno gan ei bod yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gymryd camau i hybu *dealltwriaeth* a gwybodaeth ynghylch y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol, yn hytrach na gwybodaeth yn unig. Roedd nifer o

ymatebwyr o'r farn y dylai'r ddarpariaeth yn adran 5 y Mesur arfaethedig ddefnyddio geiriad erthygl 42.

4.36 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn nad yw bob amser yn briodol defnyddio geiriad cytundebau rhyngwladol yng nghyfraith ddomestig y DU. Mae cyfraith ddomestig y DU yn cael ei drafftio'n glir heb ddefnyddio geiriau nac ymadroddion yn ddiangen. Er enghraifft, mae erthygl 42 yn defnyddio'r term "*active* steps". Gan nad yw'n bosibl cymryd cam "anweithredol", mae adran 5 yn cyfeirio at "camau" yn unig.

4.37 Fodd bynnag, mewn ymateb i'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mae geiriad adran 5 wedi'i ddiwygio i'w gwneud yn eglur bod yn rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau sydd *yn briodol* i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol (adran 5 y Mesur arfaethedig).

**Adroddiadau gan Weinidogion Cymru ar gydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus**

4.38 Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai fod yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio adroddiad ar gydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus yn fwy aml na phob pum mlynedd.

4.39 Fodd bynnag, prif ddiben dewis y cyfnod adrodd hwn oedd cydymffurfio â'r cyfnodau y bydd y DU yn rhoi adroddiad i Bwyllgor y CU. Mae cynllun y plant yn darparu mecanwaith y gall fod yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio adroddiadau ar adegau gwahanol trwyddo. Yn ein barn ni, ni ddylid gwneud unrhyw newid i'r cyfnod adrodd a nodir yn y Mesur arfaethedig a dylid gadael gofynion adrodd ychwanegol i'r cynllun. Ymhellach, caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ar unrhyw adeg, graffu ar weithrediad y cynllun a galw am dystiolaeth.

**Swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

4.40 Nid oedd rhai ymatebwyr yn siŵr am y swyddogaeth y byddai Comisiynydd Plant Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ei chael o ran craffu ar raddau’r cydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus. Roedd rhai o'r farn y dylai'r Mesur wneud darpariaeth benodol ynglŷn â hyn. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn bod Comisiynydd Plant Cymru yn gallu defnyddio'r swyddogaethau sydd ganddo eisoes i ystyried y mater hwn ac nad oes angen i'r Mesur arfaethedig wneud darpariaeth bellach.

4.41 Gan y bydd y ddyletswydd bellach yn berthnasol i benderfyniadau strategol am sut i arfer swyddogaethau, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o’r farn nad yw ystyried cydymffurfiaeth â’r ddyletswydd bellach o fewn cylch gwaith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac nad dyna’i ddiben bellach. Nid ydym yn ystyried y byddai’n briodol i’r Mesur arfaethedig roi swyddogaethau i’r Ombwdsmon mewn perthynas â chydymffurfio â’r ddyletswydd i roi sylw dyledus, gan nad ydym yn ystyried y byddai

swyddogaethau o’r fath yn cyd-fynd yn dda â phrif ddiben a chylch gwaith ei swydd.

**Cymhwyso'r Mesur arfaethedig i bobl ifanc**

4.42 Cafwyd ystod o sylwadau ynglŷn â'r darpariaethau yn adran 7 y Mesur arfaethedig, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried ac ymgynghori ar gymhwysiad posibl y Mesur i bobl sy'n hŷn na 18 oed ond sy'n iau na 25 oed. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn nad oedd yn briodol cynnwys y ddarpariaeth yn y Mesur arfaethedig gan fod y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol wedi'u llunio'n benodol i amddiffyn plant. Roedd rhai o'r farn y gallai dynnu'r ffocws a'r ymdrech oddi ar gyflawni'r hawliau a'r rhwymedigaethau yn y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol ar gyfer plant. Roeddynt o'r farn y dylid ymdrin â materion ynghylch y grŵp oedran hŷn hwn gan ddefnyddio proses ar wahân ac na ddylid oedi'r Mesur arfaethedig.

4.43 Fodd bynnag, roedd ymatebwyr eraill o'r farn y dylid ystyried perthnasedd y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol i'r rheini sy'n hŷn na 18 oed ond sy'n iau na 25 oed, yn enwedig gan fod angen cymorth a gwasanaethau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'u hoedran ar rai pobl o'r grŵp oedran hwnnw. Roedd yr ymatebion hefyd yn tynnu sylw at y ffaith y gallai methu ag ystyried y mater hwn niweidio'r sefyllfa bolisi bresennol yng Nghymru a'r trefniadau cynllunio lleol.

4.44 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn y dylid cadw'r darpariaethau yn y Mesur arfaethedig gan y byddant yn arwain at ystyried ac ymgynghori ar y mater yn fanylach nag sydd wedi bod yn bosibl yn yr ymgynghoriad ar y Mesur arfaethedig drafft. O ystyried y bydd cynllun y plant yn amlinellu cynigion ar gyfer yr ymgynghoriad ar y mater hwn, ni fydd mewn unrhyw ffordd yn oedi'r Mesur arfaethedig.

**Y dogfennau sydd ar gael mewn fformatau i blant a phobl ifanc**

4.45 Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai fod yn ofynnol i gynllun y plant ac adroddiadau Gweinidogion Cymru am gydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus fod ar gael mewn iaith y mae plant a phobl ifanc yn ei deall.

4.46 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn y byddai'n anodd iawn gwneud hynny'n ofyniad deddfwriaethol, oherwydd bod gan grwpiau oedran gwahanol ac unigolion gwahanol o fewn y grwpiau oedran hynny lefelau gwahanol iawn o sgiliau darllen a deall. Byddai'n anodd iawn creu dyletswydd a oedd yn egluro'r hyn yr oedd yn ofynnol i Weinidogion Cymru ei wneud.

4.47 Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i ddarparu fersiynau o ddogfennau ar gyfer plant a phobl ifanc, lle y bo'n briodol, ond credwn y dylid ymdrin â'r mater fel ymrwymiad polisi.

4.48 O ran yr ymgynghoriad ar gynllun drafft y plant neu'r newidiadau iddo, gan fod Gweinidogion Cymru o dan ddyletswydd i ymgynghori â phlant a phobl ifanc, mae'n rhaid iddynt gynnal yr ymgynghoriad hwnnw mewn ffordd sy'n ddealladwy i blant a phobl ifanc.

**Pŵer i ddiwygio deddfwriaeth yn dilyn adroddiad un o Weinidogion Cymru**

4.49 Mae'r Mesur arfaethedig yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn i ddiwygio deddfwriaeth os dônt i'r casgliad yn un o'u hadroddiadau y byddai'n ddymunol gwneud hynny i roi effaith bellach neu effaith well i'r hawliau a'r rhwymedigaethau yn y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol. Dim ond i wneud diwygiadau y byddai gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ei hun gymhwysedd deddfwriaethol i'w gwneud y gall Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer. Mae'r gorchmynion a wneir o dan y pŵer hwn yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol y Cynulliad, fel y byddai'n rhaid i'r Cynulliad gymeradwyo unrhyw orchymyn ar ffurf ddrafft cyn y gallai Gweinidogion Cymru ei wneud.

4.50 Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn bod y darpariaethau hyn yn briodol ac y byddent o fudd, er bod rhai o'r farn na ddylid rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, sy'n golygu y byddai'n rhaid i Fesur Cynulliad yn y dyfodol wneud unrhyw ddiwygiadau i ddeddfwriaeth. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylid ystyried gwneud gorchmynion o dan y pŵer hwn yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol well.

4.51 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn ei bod yn briodol cadw'r darpariaethau hyn yn y Mesur gan y byddant yn ei gwneud yn bosibl diwygio deddfwriaeth yn weddol gyflym, heb orfod aros am Fesur arfaethedig priodol mewn rhaglen ddeddfwriaethol yn y dyfodol. Rydym yn ystyried bod gweithdrefn gadarnhaol yn briodol i orchmynion o dan y pŵer hwn gan ei bod yn cydbwyso'r angen i'r Cynulliad reoli'r diwygiadau a wneir â'r gallu i wneud diwygiadau yn weddol gyflym os oes angen. Byddai datblygu gweithdrefn well yn estyn yr amserlen ar gyfer gwneud diwygiadau.

## 5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

5.1 Mae'r Mesur arfaethedig yn cynnwys darpariaethau i lunio is-ddeddfwriaeth. Mae Tabl 1 isod yn nodi'r canlynol mewn perthynas â phob darpariaeth:

- y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo;
- ar ba ffurf y caiff y pŵer ei arfer;
- priodoldeb y pŵer a ddirprwyir;
- y weithdrefn a ddefnyddir (cadarnhaol, negyddol, dim) os o gwbl; ac
- esboniad am unrhyw rai o weithdrefnau'r Cynulliad a ddefnyddir.

**Tabl 1: Crynodeb o'r pwerau i lunio is-deddfwriaeth**

| Adran | **Rhoddir y pŵer i** | **Ffurf** | **Priodoldeb** | **Gweithdrefn** | **Rheswm dros y weithdrefn** |
|---|---|---|---|---|---|
| 6(2) | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Mae'n ei gwneud yn bosibl gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth yn gymharol gyflym i roi effaith bellach neu well i'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol | Cadarnhaol gyda chyfnod estynedig i'r Cynulliad gael craffu arno | Mae'n rhoi rheolaeth i'r Cynulliad dros p'un a gaiff diwygiadau arfaethedig eu gwneud ac mae'n rhoi mwy o amser i'r Cynulliad graffu ar ddiwygiadau arfaethedig |
| 7(6) | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Mae'n ei gwneud yn bosibl cymhwyso darpariaethau'r Mesur i bobl ifanc (18 i 24 oed) yn gymharol gyflym | Cadarnhaol gyda chyfnod estynedig i'r Cynulliad gael craffu arno | Mae'n rhoi rheolaeth i'r Cynulliad dros p'un a gaiff diwygiadau arfaethedig eu gwneud ac mae'n rhoi mwy o amser i'r Cynulliad graffu ar ddiwygiadau arfaethedig |
| 8(5) | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Mae gofynion y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol wedi'u nodi yn y Mesur – mae'r pŵer yn ei | I'w osod ar ffurf ddrafft gerbron y Cynulliad am gyfnod penodol cyn i | Gan nad oes gan y Cynulliad reolaeth dros sut caiff y Confensiwn ei gymhwyso i'r DU, ni fyddai'n |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | gwneud yn bosibl diwygio'r Mesur i'w gadw'n gyson â diwygiadau i'r Confensiwn neu'r Protocolau y cytunwyd arnynt gan y DU | Weinidogion Cymru ei lunio ond ni all y Cynulliad benderfynu ei ddirymu | briodol i'r Cynulliad allu atal y Mesur, drwy benderfyniad, rhag cael ei ddiweddaru yn unol â'r newidiadau i'r Confensiwn. Mae'n rhoi amser i'r Cynulliad graffu ar orchmynion cyn iddynt gael eu llunio |
| 8(7) | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Mae gofynion y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol wedi'u nodi yn y Mesur – dyletswydd i wneud diwygiadau i'r Mesur i'w gadw'n gyson â diwygiadau i'r Confensiwn neu'r Protocolau y mae'r DU wedi'u cymeradwyo | I'w osod ar ffurf ddrafft gerbron y Cynulliad am gyfnod penodol cyn i Weinidogion Cymru ei lunio ond ni all y Cynulliad benderfynu ei ddirymu | Gan nad oes gan y Cynulliad reolaeth dros sut caiff y Confensiwn ei gymhwyso i'r DU, ni fyddai'n briodol i'r Cynulliad allu atal y Mesur, drwy benderfyniad, rhag cael ei ddiweddaru yn unol â'r newidiadau i'r Confensiwn. Mae'n rhoi amser i'r Cynulliad graffu ar orchmynion cyn iddynt gael eu llunio |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 8(8) | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Mae'r Datganiadau a'r Neilltuadau i'r Confensiwn a'r Protocolau i'w gosod yn y Mesur – dyletswydd i'w gadw'n gyson â'r diwygiadau i'r datganiadau neu'r neilltuadau | I'w osod ar ffurf ddrafft gerbron y Cynulliad am gyfnod penodol cyn i Weinidogion Cymru ei lunio ond ni all y Cynulliad benderfynu ei ddirymu | Gan nad oes gan y Cynulliad reolaeth dros sut caiff y Confensiwn ei gymhwyso i'r DU, ni fyddai'n briodol i'r Cynulliad allu atal y Mesur, drwy benderfyniad, rhag cael ei ddiweddaru yn unol â'r newidiadau i'r Confensiwn. Mae'n rhoi amser i'r Cynulliad graffu ar orchmynion cyn iddynt gael eu llunio |

**<u>Adran 6 - Diwygio deddfwriaeth i roi effaith bellach neu effaith well i'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol</u>**

5.2 Mae adran 6 y Mesur yn cynnwys darpariaeth er mwyn i Weinidogion Cymru, drwy is-ddeddfwriaeth (gorchymyn), addasu deddfwriaeth neu Offerynnau uchelfreiniol, os yw'r diwygiad o fewn cymhwysedd deddfwriaethol datganoledig y Cynulliad.

5.3 Mae'r pŵer hwn yn berthnasol os, yn sgil unrhyw adroddiad dan y Mesur, daw Gweinidogion Cymru i'r casgliad y byddai'n ddymunol, er mwyn rhoi effaith bellach neu effaith well i ofynion y Confensiwn, diwygio unrhyw ddeddfiad neu offeryn uchelfreiniol. Byddai hyn yn cynnwys Deddfau Seneddol, Mesurau'r Cynulliad a Deddfau ac is-ddeddfwriaeth. Byddai Offerynnau uchelfreiniol yn cynnwys Siarteri Brenhinol a Gwarantau Brenhinol.

5.4 Bydd yr Offeryn Statudol yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol uwch y Cynulliad. Bydd hyn yn golygu y bydd Gweinidogion Cymru yn gosod drafft o'r Offeryn Statudol sy'n cynnwys y newidiadau arfaethedig gerbron y Cynulliad ac na fyddant yn gallu llunio'r Offeryn oni bai bod y Cynulliad yn cymeradwyo'r drafft. Rhaid i ddeugain diwrnod fynd heibio, gan ddechrau gyda'r dyddiad pan osodir y drafft, a chan ddiystyru cyfnodau pan ddiddymir y Cynulliad neu gyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod, cyn y gall y Cynulliad bleidleisio p'un a ddylid cymeradwyo'r drafft. Gwneir hyn er mwyn

rhoi mwy o amser i’r Cynulliad graffu ar y drafft; mae’n rhoi dwywaith y cyfnod craffu gofynnol y darperir ar ei gyfer gan Reolau Sefydlog y Cynulliad. Cyn gosod drafft, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r bobl hynny sydd yn eu barn hwy yn briodol. Efallai y daw Gweinidogion Cymru i'r casgliad y byddai'n briodol ymgynghori ar ddrafft o'r Offeryn ei hun.

5.5 Gellir gweld y pŵer fel rhan o becyn y trefniadau newydd sy'n cael eu rhoi ar waith yn y Mesur i roi effaith bellach i'r Confensiwn, neu fel rhywbeth sy'n gysylltiedig â'r pecyn. Y bwriad yw symud yr agenda hon yn ei blaen. Efallai y caiff ei ystyried yn haws ac yn gyflymach, felly, symud diwygiadau o'r fath yn eu blaen drwy roi'r pŵer hwn i Weinidogion Cymru (yn dilyn ymgynghoriad ac ar ôl i'r Cynulliad gymeradwyo'r peth) yn hytrach na gorfod dwyn ymlaen Fesur arfaethedig a mynd ag ef drwy holl weithdrefnau'r Cynulliad bob tro mae angen diwygio Deddf neu Fesur.

5.6 Fodd bynnag, gan y gellid defnyddio'r pŵer ar gyfer amrywiaeth eang o ddiwygiadau, ystyrir ei bod yn briodol mai'r Cynulliad ddylai gael penderfynu'n derfynol ynghylch a all Gweinidogion Cymru wneud y diwygiadau maent yn eu cynnig. Ystyriwyd hefyd ei bod yn briodol codi lefel y weithdrefn gadarnhaol er mwyn rhoi mwy o amser i’r Cynulliad graffu ar y diwygiadau arfaethedig.

**Adran 7 – Cymhwyso'r Mesur i bobl ifanc**

5.7 Mae adran 7(6) y Mesur yn cynnwys darpariaeth er mwyn i Weinidogion Cymru, drwy is-ddeddfwriaeth (gorchymyn), gymhwyso unrhyw ddarpariaethau yn y Mesur neu yng ngofynion y Confensiwn o ran pobl ifanc, ynghyd â'r addasiadau priodol. I'r diben hwn, ystyr pobl ifanc yw pobl sydd wedi troi'n 18 oed ond heb droi'n 25 oed eto. Bydd yr Offeryn Statudol yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol uwch y Cynulliad. Bydd hyn yn golygu y bydd Gweinidogion Cymru yn gosod drafft o'r Offeryn Statudol sy'n cynnwys y newidiadau arfaethedig gerbron y Cynulliad ac na fyddant yn gallu llunio'r offeryn oni bai bod y Cynulliad yn cymeradwyo'r drafft. Rhaid i ddeugain diwrnod fynd heibio, gan ddechrau gyda’r dyddiad pan osodir y drafft, a chan ddiystyru cyfnodau pan ddiddymir y Cynulliad neu gyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod, cyn y gall y Cynulliad bleidleisio p’un a ddylid cymeradwyo’r drafft. Gwneir hyn er mwyn rhoi mwy o amser i’r Cynulliad graffu ar y drafft; mae’n rhoi dwywaith y cyfnod craffu gofynnol y darperir ar ei gyfer gan Reolau Sefydlog y Cynulliad. Cyn arfer y pŵer hwn, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi drafft o'r gorchymyn ac ymgynghori fel y bo'n briodol yn eu barn hwy ar y drafft.

5.8 Ystyrir ei bod yn briodol rhoi'r pŵer hwn i Weinidogion Cymru fel y gallant, yn dilyn ymgynghoriad, os dônt i'r casgliad ei bod yn briodol, ehangu rhywfaint o'r ddarpariaeth yn y Mesur neu'r cyfan i bobl ifanc, neu wneud darpariaeth arall, heb orfod aros am Fesur Cynulliad priodol.

5.9 Fodd bynnag, gan y gellid defnyddio'r pŵer i wneud amrywiaeth eang o wahanol bethau, gan gynnwys gwneud darpariaeth arall i roi effaith well i ofynion y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol mewn perthynas â phobl ifanc, ystyrir ei bod yn briodol mai'r Cynulliad ddylai gael penderfynu'n derfynol a all

Gweinidogion Cymru wneud y ddarpariaeth y maent yn ei chynnig. Ystyriwyd hefyd ei bod yn briodol codi lefel y weithdrefn gadarnhaol er mwyn rhoi mwy o amser i'r Cynulliad graffu ar y diwygiadau arfaethedig.

**Adran 8 - Diwygio'r Mesur a'r Atodlen i'w cadw yn unol â chymhwysiad y Confensiwn i'r DU**

5.10 Mae adran 8(5) y Mesur yn cynnwys pŵer er mwyn i Weinidogion Cymru, drwy is-ddeddfwriaeth (gorchymyn), wneud gwelliannau priodol i rannau penodol o'r Mesur, i adlewyrchu unrhyw ddiwygiad a wneir i'r Confensiwn neu ei Brotocolau Dewisol, i adlewyrchu unrhyw Brotocol Dewisol ychwanegol y gellir ei wneud ac unrhyw ddatganiad neu neilltuad a wneir gan y DU mewn perthynas ag unrhyw un o'r materion hynny.

5.11 Mae'r pŵer hwn yn berthnasol os yw'r DU wedi llofnodi neu ddangos fel arall ei bod yn cytuno â'r materion hynny ond heb gadarnhau'r materion hynny'n ffurfiol ar y pryd. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn y dylai fod yn bosibl diwygio'r Mesur i adlewyrchu'r materion hynny unwaith bydd y DU wedi nodi ei bod yn cytuno â materion o'r fath ar lefel ryngwladol.

5.12 Mae adran 8(7) y Mesur yn cynnwys darpariaeth fel bod yn rhaid i Weinidogion Cymru, drwy is-ddeddfwriaeth (gorchymyn), wneud y diwygiadau hynny – ee adlewyrchu unrhyw ddiwygiad a wnaed i'r Confensiwn neu ei Brotocolau Dewisol, adlewyrchu unrhyw Brotocol Dewisol ychwanegol a wnaed ac adlewyrchu unrhyw ddatganiad neu neilltuad a wnaed gan y DU mewn perthynasâ'r materion hynny. Mae hyn yn berthnasol os yw'r DU wedi cadarnhau'r materion hynny'n ffurfiol a bod Llywodraeth y Cynulliad o'r farn y dylai fod yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddiweddaru'r Mesur yn unol â hynny mewn achos o'r fath. Unwaith eto, fel y nodwyd uchod, bydd yn ofynnol gosod y gorchymyn gerbron y Cynulliad unwaith caiff ei lunio ond ni fydd yn ddarostyngedig i unrhyw un o weithdrefnau'r Cynulliad. Ni all y Cynulliad, felly, ei ddirymu.

5.13 Pwerau cyfyngedig yw'r pwerau yn adran 8(5) ac adran 8(7) a gellir ond eu defnyddio i adlewyrchu'n gywir newidiadau i rwymedigaethau Confensiwn y DU. Dim ond i ddiwygio adran 1(1), 8(1), 8(2) a 8(3) a'r Atodlen i'r Mesur y gellir eu defnyddio. Dyma'r darpariaethau sy'n nodi'n benodol ofynion y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus iddynt, ac y bydd angen eu diweddaru os gwneir newidiadau i rwymedigaethau Confensiwn y DU. Er enghraifft, mae adran 1(1) yn cyfeirio'n benodol at y ddau Brotocol Dewisol cyfredol i'r Confensiwn. Pe cytunid ar brotocol newydd yn y DU, byddai'n rhaid cynnwys cyfeiriad at y protocol newydd hwnnw yn adran 1(1).

5.14 Mae adran 8(8) y Mesur yn cynnwys pŵer cyfyng arall sy'n gwneud darpariaeth bod yn rhaid i Weinidogion Cymru, drwy is-ddeddfwriaeth (gorchymyn), wneud gwelliannau i Ran 3 yr Atodlen (datganiadau a neilltuadau), i adlewyrchu unrhyw ddiwygiad (cyfan neu rannol) i unrhyw ddatganiad neu neilltuad am y cyfnod a nodir yn y Rhan honno o'r Atodlen neu ei dynnu'n ôl. Bydd Rhan 3 yr Atodlen yn adlewyrchu unrhyw ddatganiad

neu neilltuad a wnaed gan y DU ar lefel ryngwladol mewn perthynas â'r Confensiwn neu unrhyw Brotocol Dewisol cysylltiedig. Mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn, os yw'r DU yn diwygio neu'n tynnu unrhyw ddatganiad neu neilltuad o'r fath yn ôl, fod yn rhaid adlewyrchu hynny yn y Mesur arfaethedig. Dyna'r rheswm dros y gofyniad ar Weinidogion Cymru yn adran 8(8).

5.15 Rhaid i orchymyn, o dan adran 8(5), (8(7) neu 8(8) gael ei lunio gan Offeryn Statudol a rhaid ei osod gerbron y Cynulliad ar ffurf ddrafft cyn iddo gael ei lunio. At hynny, ni ellir ei lunio hyd nes i ddeugain diwrnod fynd heibio, gan ddechrau gyda'r dyddiad pan osodir y drafft, a chan ddiystyru cyfnodau pan ddiddymir y Cynulliad neu gyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod. Gwneir hyn er mwyn rhoi amser i'r Cynulliad graffu ar y gorchymyn drafft cyn iddo gael ei lunio. Fodd bynnag ni all y Cynulliad benderfynu atal Gweinidogion Cymru rhag llunio'r gorchymyn. Nid oes gan y Cynulliad reolaeth ar y ffordd y mae'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol yn berthnasol i'r DU. Yn unol â hynny, rydym o'r farn na fyddai'n briodol i benderfyniad gan y Cynulliad Cenedlaethol allu atal y rhannau perthnasol o'r Mesur rhag cael eu newid i adlewyrchu newidiadau i gymhwysiad y Confensiwn i'r DU.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 1. Yr Opsiynau

1.1 Mae'r Bennod hon yn cyflwyno pum opsiwn gwahanol mewn perthynas ag amcanion polisi'r Mesur arfaethedig (gweler pennod 3 Rhan 1 y ddogfen) ac yn bennaf y prif amcan i ymgorffori'r Confensiwn yn neddfwriaeth Cymru. Dadansoddir pob un o'r opsiynau o ran i ba raddau y byddent yn cyflawni amcanion Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan gryfhau ei hymrwymiad i ofynion y Confensiwn a'i pholisi ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n seiliedig ar hawliau, ynghyd â'r risgiau sy'n gysylltiedig â phob un ohonynt. Mae costau a manteision pob opsiwn wedi'u nodi ym Mhennod 2 yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn. Y Mesur arfaethedig yw Opsiwn 3.

1.2 Yr opsiynau hyn yw:

- Opsiwn 1 – Gwneud dim

  Pedwar Opsiwn Deddfwriaethol

- Opsiwn 2 – Cyflwyno Mesur i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru (a'r Prif Weinidog) i roi sylw dyledus i'r Confensiwn wrth wneud penderfyniadau strategol am sut i arfer eu swyddogaethau.

- Opsiwn 3 – Cyflwyno Mesur i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru (a'r Prif Weinidog) i roi sylw dyledus i'r Confensiwn am gyfnod interim wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth, ac yna ar ôl y cyfnod interim pan fyddant yn arfer unrhyw un o'u swyddogaethau.

- Opsiwn 4 - Cyflwyno Mesur i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a'r Prif Weinidog roi sylw dyledus i'r Confensiwn wrth arfer (o leiaf i ddechrau) ystod gyfyngedig o swyddogaethau Gweinidogol (y dull gweithredu swyddogaethau perthnasol).

- Opsiwn 5 – Cyflwyno Mesur i gymhwyso dyletswydd gyffredinol i roi sylw dyledus i'r Confensiwn i Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r cyrff datganoledig yng Nghymru.

### Opsiwn 1 – Gwneud Dim

1.3 Ers penderfyniad mewn Cyfarfod Llawn ym mis Ionawr 2004, polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru fu seilio ei holl bolisi ar gyfer plant a phobl ifanc ar Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn. Mae wedi gwneud hynny drwy Saith Nod Craidd ar gyfer plant a phobl ifanc, sydd wedi'u defnyddio fel sail i gynllunio gwasanaethau a chymorth ar gyfer plant a phobl ifanc 0-25 oed a sicrhau eu bod yn cael eu darparu ledled Cymru ac yn lleol. Fodd bynnag,

dehongli a chrynhoi'r Confensiwn yn unig y mae’r Saith Nod Craidd. Mae hyn yn golygu bod y ffocws wedi bod ar y Saith Nod Craidd yn hytrach na phob un o'r 41 erthygl sylfaenol unigol neu'r Confensiwn cyfan. Yn ei Sylwadau Clo yn 2008, nododd Pwyllgor y Confensiwn mai un o ganlyniadau anfwriadol y Saith Nod Craidd oedd cuddio'r Confensiwn ei hun, a arweiniodd at lefelau isel o ymwybyddiaeth ymhlith plant, pobl ifanc, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda hwy.

1.4 Byddai’r opsiwn “Gwneud dim” yn y cyd-destun hwn yn golygu parhau ag ymrwymiad polisi presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hytrach na gwarchod yr ymrwymiad hwnnw drwy ddeddfwriaeth. Pe byddai'r dull presennol o lunio polisi yn parhau, ni fyddai dealltwriaeth pobl o'r Confensiwn a'i erthyglau'n cael ei chryfhau na'i datblygu yng nghyd-destun polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru. Byddai'n methu cyfle i hyrwyddo dull arloesol o lunio polisi sy’n seiliedig ar hawliau (yn hytrach nag un mwy traddodiadol sy’n seiliedig ar les/anghenion) ac ni fyddai'n cryfhau nac yn cynnal momentwm ar gyfer datblygu'r gwaith o weithredu hawliau plant a phobl ifanc yn gyffredinol. Erbyn hyn, mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gyfrifoldeb datganoledig mewn llawer o feysydd, sy'n arbennig o berthnasol i'r gwaith o weithredu hawliau o fewn y Confensiwn, a chyfle i atgyfnerthu ei dull presennol o lunio polisi drwy ddeddfwriaeth.

1.5 Byddai gwneud dim yn golygu y byddai'r dull ad hoc presennol sydd, i ryw raddau, yn dameidiog o ddatblygu'r gwaith o weithredu'r Confensiwn yn parhau. Ni fyddai dull eglur cyson o wireddu’n raddol hawliau’r plant a’r bobl ifanc yng Nghymru yn unol â’r Confensiwn. Byddai gallu Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddangos bod ganddi ddull cyson o fonitro a gwerthuso'r gwaith o weithredu'r Confensiwn, gyda chymorth tystiolaeth o effaith polisi o'r fath ar les plant a phobl ifanc, yn cael ei leihau.

1.6 Roedd y Sylwadau Clo gan Bwyllgor y CU yn 2008 (yn dilyn ei archwiliad o hynt gwaith parti gwladwriaeth y DU) yn nodi yr hoffai i’r Gweinyddiaethau Datganoledig yn y DU ddefnyddio eu pwerau deddfwriaethol newydd i ddatblygu'r gwaith o weithredu'r Confensiwn drwy roi cyd-destun deddfwriaethol iddo. Ni fyddai dull 'gwneud dim' yn ymateb cadarnhaol i Sylwadau Clo Pwyllgor y Confensiwn, gan y byddai’n golygu y byddai gweithredu hawliau a rhwymedigaethau’r Confensiwn ymhellach yn dibynnu ar ymrwymiad polisi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn hytrach na rhoi cyd-destun deddfwriaethol iddo.

**Pedwar Opsiwn Deddfwriaethol**

1.7 Mae'r pedwar opsiwn, a ddisgrifir ym mharagraffau 1.9 i 1.29 isod, yn amlinellu dull deddfwriaethol o osod sylfaen i'r polisi hwn ac yn ystyried sut gellir cymhwyso dyletswydd i roi sylw dyledus i'r Confensiwn a phwy ddylai fod â'r ddyletswydd honno. Trwy ddefnyddio dull deddfwriaethol, y nod yw sicrhau bod yna ddeddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol ystyried y Confensiwn a bod dull gorfodol yn cael ei ddefnyddio.

1.8 Wrth ystyried y cynnig ar gyfer Mesur, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod darpariaethau'r Mesur arfaethedig o fewn cymhwysedd deddfwriaethol perthnasol y Cynulliad. Yn ogystal, roedd hyd a lled y ddyletswydd yn ystyriaethau allweddol o gofio effaith y ddyletswydd ar brosesau a systemau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hyn yn effeithio ar y graddau y mae modd cyflawni dyletswydd, o ystyried pwy fyddai'n cymryd rhan yn y gwaith o gyflawni'r ddyletswydd a lefel yr arbenigedd sydd ei angen.

1.9 Mae pob un o'r pedwar opsiwn deddfwriaethol yn ystyried dyletswydd i roi sylw dyledus, fel y'i diffinnir yn adran 1 y Memorandwm Esboniadol.

- Mae Opsiwn 2 yn gosod y ddyletswydd honno ar Weinidogion Cymru (a'r Prif Weinidog) wrth wneud penderfyniadau strategol am sut i arfer eu swyddogaethau;
- Mae Opsiwn 3 yn gosod y ddyletswydd honno ar Weinidogion Cymru (a’r Prif Weinidog) wrth wneud penderfyniadau am ddatblygu polisi a deddfwriaeth am gyfnod o ddwy flynedd; ar ddiwedd y cyfnod hwnnw bydd y ddyletswydd yn berthnasol i’r gwaith o arfer eu swyddogaethau;
- Mae Opsiwn 4 yn gosod y ddyletswydd honno ar Weinidogion Cymru (a'r Prif Weinidog) mewn perthynas ag arfer y swyddogaethau sydd ganddynt sy'n 'swyddogaethau perthnasol' yn unig – hy y rheini a amlinellir mewn cynllun;
- Mae Opsiwn 5 yn gosod y ddyletswydd honno ar Weinidogion Cymru, y Prif Weinidog a'r cyrff datganoledig yng Nghymru (ee asiantau gweithredu) mewn perthynas â’r gwaith o arfer eu holl swyddogaethau.

**Opsiwn 2 – Cyflwyno Mesur i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru (a'r Prif Weinidog) i roi sylw dyledus i'r Confensiwn wrth wneud penderfyniadau strategol am sut i arfer eu swyddogaethau.**

1.10 Mae'r opsiwn hwn yn gosod dyletswydd uniongyrchol ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i'r Confensiwn mewn perthynas â phob penderfyniad strategol am sut y caiff swyddogaethau eu harfer, ac felly mae’n sicrhau dyletswydd o led sylweddol. Ei fwriad yw gosod rhwymedigaeth newydd ar Weinidogion Llywodraeth Cynulliad Cymru i roi sylw dyledus i'r hawliau sylfaenol yn y Confensiwn pryd bynnag y byddant yn gwneud penderfyniadau strategol am sut i arfer swyddogaethau. Wrth wneud hynny, mae'r opsiwn hwn yn cynnwys yr holl feysydd y mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol amdanynt ar y lefel strategol.

1.11 Byddai'r dull hwn yn golygu bod angen rhoi ystyriaeth briodol i’r hawliau a’r rhwymedigaethau sylfaenol yn y Confensiwn yn hytrach nag ystyried, o dan y polisi presennol, y dehongliad cryno o'r Confensiwn drwy'r Saith Nod Craidd yn unig, fel o'r blaen. Ni fydd y ddyletswydd hon yn rhoi unrhyw hawliau newydd yn uniongyrchol i blant a phobl ifanc. Bydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion roi ystyriaeth briodol dan yr amgylchiadau i'r hawliau a'r rhwymedigaethau hyn, wrth wneud penderfyniadau strategol o'r fath. Felly, mae'r effaith bosibl ar bob maes polisi yn fwy na dull sy'n ei gwneud yn ofynnol rhoi sylw dyledus i'r Confensiwn mewn perthynas â swyddogaethau penodol yn unig. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn bod gan y dull

hwn ffocws cryfach ac ehangach ar ddatblygu'r gwaith o gyflawni'r hawliau hyn ar gyfer y plant a'r bobl ifanc yng Nghymru.

1.12 Bydd yr opsiwn hwn yn golygu bod angen dull cyfannol o ystyried yr holl hawliau a rhwymedigaethau sylfaenol yn y Confensiwn (i'r graddau y maent yn berthnasol mewn unrhyw achos penodol) wrth wneud penderfyniadau strategol, yng nghyd-destun plant a phobl ifanc, i'r graddau y gallai unrhyw benderfyniad strategol a wneir ar draws Llywodraeth Cynulliad Cymru effeithio arnynt. Er mwyn i'r ddyletswydd gael ei chyflawni'n effeithiol, bydd angen rhaglen hyfforddi a datblygu, i sicrhau bod yr arbenigedd sydd ei angen yn cael ei ddatblygu o fewn ac ar draws Llywodraeth Cynulliad Cymru. Diben codi lefel yr wybodaeth a'r arbenigedd mewn perthynas â'r Confensiwn yn Llywodraeth Cynulliad Cymru a sut mae hyn yn llywio penderfyniadau strategol Gweinidogion yw gwella'r dull gweithredu ac yn y pen draw y manteision a sicrheir i'r plant a'r bobl ifanc yng Nghymru; gwella'u lles a gwella cyfalaf cymdeithasol a ffyniant economaidd yng Nghymru yn gyffredinol.

1.13 Cydnabyddir bod rhai risgiau i'r dull hwn yn y tymor byr os na sicrheir digon o amser ac adnoddau i wneud y gwaith paratoi sydd ei angen a rhoi'r prosesau priodol ar waith. Bydd angen sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi i'r safon ofynnol a bod ystyriaeth fanwl yn cael ei rhoi i ddatblygu'r cynllun a'i weithredu i sicrhau bod y penderfyniadau a wneir gan Weinidogion Cymru a'r Prif Weinidog o ran cyflawni'r ddyletswydd i roi sylw dyledus mor gadarn yn gyfreithiol â phosib er mwyn lleihau perygl her gyfreithiol (trwy adolygiad barnwrol).

1.14 Bydd cymhwyso'r ddyletswydd i bob penderfyniad strategol a wneir yn helpu i ddatblygu polisi trawsbynciol a bydd ganddo fanteision dros Opsiwn 4, lle y byddai'r ddyletswydd ond yn ymwneud â swyddogaethau 'perthnasol' y mae'n rhaid eu nodi mewn cynllun. Roedd hon yn thema gref yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Mesur arfaethedig, lle y mynegwyd pryderon ynghylch y diffyg tryloywder a diffyg cymhwyso'r Confensiwn mewn ffordd ddigon eang, a'r cymhlethdod posibl o ran egluro pa swyddogaethau oedd yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd.

**Opsiwn 3 – Cyflwyno Mesur i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru (a'r Prif Weinidog) i roi sylw dyledus i'r Confensiwn am gyfnod interim wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth, ac yna ar ôl y cyfnod interim pan fyddant yn arfer unrhyw un o'u swyddogaethau**

1.15 Mae'r opsiwn hwn (dyma'r Mesur arfaethedig yn dilyn gwelliannau cam 2) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i'r Confensiwn wrth wneud unrhyw benderfyniadau am lunio, adolygu a newid polisïau ac am ddeddfwriaeth arfaethedig am gyfnod interim o ddwy flynedd, gan gychwyn ym mis Mai 2012. Yn dilyn hyn (o fis Mai 2014), bydd y ddyletswydd yn berthnasol pan fydd Gweinidogion Cymru yn arfer unrhyw un o'u swyddogaethau. Wrth wneud hynny, mae'r opsiwn hwn yn cynnwys holl

feysydd polisi a deddfwriaeth Gweinidogion Cymru a'r meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt.

1.16 Byddai'r dull hwn yn galw am ystyriaeth ddyledus i hawliau a rhwymedigaethau sylfaenol y Confensiwn yn hytrach na'r dehongliad cryno o'r Confensiwn yn y Saith Nod Craidd. Fel yn achos yr opsiwn blaenorol, ni fydd y ddyletswydd hon yn rhoi unrhyw hawliau newydd yn uniongyrchol i blant a phobl ifanc. Bydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion roi ystyriaeth briodol, yn yr amgylchiadau, i'r hawliau a'r rhwymedigaethau hyn o fis Mai 2012 wrth wneud penderfyniadau am ddatblygu polisi a deddfwriaeth, ac yna o fis Mai 2014 wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau eraill. Felly mae'r effaith bosibl ar bob maes polisi yn fwy na dull sy'n galw am roi sylw dyledus i'r Confensiwn yn unig mewn perthynas â swyddogaethau neu benderfyniadau strategol penodol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn bod ffocws cryfach ac ehangach i'r dull hwn ar hyrwyddo'r hawliau hyn i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae hefyd yn cynrychioli dull graddol o weithredu'r ddyletswydd i roi sylw dyledus ac yn cyfleu'r ewyllys i weithredu'r Confensiwn yn holl waith Llywodraeth Cynulliad Cymru.

1.17 Bydd yr opsiwn hwn yn galw am ddull cyfannol o ystyried holl hawliau a rhwymedigaethau sylfaenol y Confensiwn (i'r graddau y maent yn berthnasol mewn unrhyw achos penodol) yng nghyd-destun hawliau plant ar draws Llywodraeth Cynulliad Cymru. O 1 Mai 2012 – 30 Ebrill 2014 bydd hyn yn berthnasol i Weinidogion Cymru wrth wneud penderfyniadau am lunio, adolygu neu newid polisïau neu ddeddfwriaeth. Yn dilyn y cyfnod hwn, bydd y ddyletswydd yn berthnasol i waith Gweinidogion Cymru o arfer swyddogaethau.

1.18 Cynhelir rhaglen hyfforddi a datblygu fel rhan o'r trefniadau a ddatblygir i gydymffurfio. Bydd hyn yn sicrhau bod yr arbenigedd angenrheidiol yn cael ei ddatblygu dros amser o fewn ac ar draws Llywodraeth Cynulliad Cymru. I gydymffurfio â'r ddyletswydd a roddir ar Weinidogion Cymru, bydd yn bwysig codi lefel yr wybodaeth am y Confensiwn a'r arbenigedd yn ei gylch o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru ymhlith swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn ei dro, bydd hyn yn llywio penderfyniadau Gweinidogion, yn gwella'r dull gweithredu ac, yn y pen draw, yn sicrhau manteision mwy byth i blant a phobl ifanc yng Nghymru, gan wella eu lles a gwella cyfalaf cymdeithasol a ffyniant economaidd yng Nghymru yn gyffredinol.

1.19 Fel yn achos enghreifftiau eraill, mae peryglon i'r dull hwn os na roddir digon o amser, sylw neu adnoddau i wneud y gwaith paratoi angenrheidiol a sefydlu'r prosesau priodol. Bydd angen i'r staff gael eu hyfforddi a deall yn llawn sut mae'r ddyletswydd yn berthnasol i'w gwaith a sicrhau bod ystyriaeth fanwl yn cael ei rhoi i'r hawliau a'r rhwymedigaethau o fewn y Confensiwn.

1.20 Bydd cymhwyso'r ddyletswydd yn y ffordd hon, yn sgil y cynigion diwygiedig, yn cefnogi datblygiadau polisi sy'n berthnasol i bob portffolio Gweinidogol a bydd yn dod â mwy o fanteision nag opsiynau eraill, lle y byddai'r ddyletswydd ond yn ymwneud â swyddogaethau 'perthnasol' neu benderfyniadau 'strategol' gyda mwy o wybodaeth a diffiniadau am yr hyn a

olygir wrth hyn yn y cynllun plant. Bydd y dull hwn yn rhoi dyletswydd glir a mynegiant clir o’i hyd a’i led ar y Mesur ei hun ac amserlenni ar gyfer gweithredu’r ddyletswydd fesul tipyn. Mae hyn yn mynd i’r afael â phryderon sydd wedi’u mynegi ynghylch y diffyg eglurder a thryloywder a nodwyd a’r ffaith na chymhwysir y ddyletswydd i roi sylw dyledus yn ddigonol, sef y ddyletswydd a welir yn y Mesur arfaethedig fel y’i cyflwynwyd, a’r cymhlethdod posibl o ran pa benderfyniadau oedd yn ddarostyngedig i’r ddyletswydd.

**Opsiwn 4 - Cyflwyno Mesur i’w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a’r Prif Weinidog roi sylw dyledus i’r Confensiwn wrth arfer (o leiaf i ddechrau) ystod gyfyngedig o swyddogaethau Gweinidogol (y dull gweithredu swyddogaethau perthnasol).**

1.21 Amlinellwyd yr opsiwn hwn yn y ddogfen ymgynghori ar y Mesur drafft. Ni fyddai Opsiwn 3 yn pennu yn y Mesur arfaethedig y swyddogaethau a fyddai'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd i roi sylw dyledus. Byddai'n gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru benderfynu, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a chytundeb gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ar y swyddogaethau a fyddai'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd drwy gynnwys y rheini mewn cynllun plant ("swyddogaethau perthnasol"). Roedd gan y dull hwnnw botensial i gyfyngu ar y swyddogaethau y byddai’r ddyletswydd yn ymwneud â hwy, er ei bod hefyd yn bosibl cynnwys pob swyddogaeth yn y cynllun fel swyddogaethau perthnasol, ac wedyn byddai angen i'r Cynulliad gytuno arnynt yn dilyn ymgynghoriad. Gan y byddai'r cynllun yn cael ei adolygu (o leiaf) bob pum mlynedd, gellid ychwanegu swyddogaethau ychwanegol at y cynllun o ganlyniad i adolygiad.

1.22 Datblygwyd yr Opsiwn hwn fel dull graddol pellach o gymhwyso’r ddyletswydd, ac ystyriwyd bod nifer o fanteision i'r dull hwn: byddai'n darparu'r gallu i ganolbwyntio ar feysydd polisi penodol, er enghraifft lle y gellid gwneud y cynnydd mwyaf o gofio casgliadau Sylwadau Clo'r Confensiwn yn 2008, lle y tynnwyd sylw at feysydd polisi penodol. Roedd hefyd yn darparu dull graddol o leihau’r gofyniad o ran hyfforddiant a gweithredu a monitro’r swyddogaethau a gynhwysir yn y cynllun. Roedd y dull hwn hefyd yn lleihau peryglon heriau cyfreithiol i Weinidogion Cymru a'r Prif Weinidog, ond nid oedd yn cael gwared â hwy yn gyfan gwbl. Felly, roedd manteision i'r opsiwn hwn o safbwynt cost ac ymarferoldeb.

1.23 Cafodd y fersiwn ddrafft o’r Mesur arfaethedig a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad ei seilio ar yr opsiwn hwn sef bodloni gofynion y Confensiwn, ond trwy symud yn raddol dros gyfnod hirach i gynnwys yr holl swyddogaethau yn y cynllun, gan gydnabod ar yr un pryd fod Gweinidogion Cymru a'r Prif Weinidog yn arfer amcangyfrif o dros 10,000 o swyddogaethau statudol.

1.24 Er bod nifer o fanteision i'r Opsiwn hwn o ran ymarferoldeb, roedd y cymhlethdod o ran nodi'r swyddogaethau perthnasol a sicrhau bod polisi trawsbynciol yn cael ei ystyried yn elfen a oedd â’r potensial i negyddu’r manteision o safbwynt gweinyddol a thryloywder. Cododd yr ymatebion i'r

ymgynghoriad ar yr opsiwn hwn nifer o bryderon megis diffyg tryloywder a’r anhawster o ran cymhwyso’r ddyletswydd i roi sylw dyledus yn effeithiol i feysydd gwaith polisi trawsbynciol megis mynd i'r afael â thlodi.

1.25 Mynegwyd pryderon hefyd y byddai'r dull gweithredu swyddogaethau perthnasol yn arwain at ddiffyg cydlyniant yn Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran sut i fynd i'r afael â’r hawliau a’r rhwymedigaethau yn y Confensiwn ar draws pob maes polisi perthnasol. Er bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i fod o'r farn bod y dull hwnnw yn sicrhau bod modd ymdrin â materion ar sail drawsbynciol, mae wedi ystyried pwysau a chryfder yr ymatebion i'r ymgynghoriad lle y codwyd pryderon ynghylch cymhwysiad digonol y ddyletswydd i roi sylw dyledus.

**Opsiwn 5 – Cyflwyno Mesur i gymhwyso dyletswydd gyffredinol i roi sylw dyledus i’r Confensiwn i Lywodraeth Cynulliad Cymru a’r cyrff datganoledig yng Nghymru**

1.26 Byddai’r opsiwn hwn yn cyflwyno deddfwriaeth a fyddai’n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru (a’r Prif Weinidog) a chyrff datganoledig eraill yng Nghymru (ee awdurdodau lleol ac eraill fel y’u nodir ym Mater 15.6 Maes 15 Rhan 1 Atodlen 5 Deddf Llywodraeth Cymru 2006) roi sylw dyledus i’r Confensiwn wrth arfer eu holl swyddogaethau.

1.27 Opsiwn 5 yw’r opsiwn sydd â’r potensial i gael yr effaith fwyaf ac a fyddai’n sicrhau bod y ddyletswydd i roi sylw dyledus yn cael ei chymhwyso i bob un o’r swyddogaethau o’r dyddiad y dôi’r Mesur arfaethedig i rym. Byddai’n golygu y byddai angen i bob penderfyniad a pholisi a wneir wrth arfer y swyddogaethau hynny gydymffurfio â’r ddyletswydd honno er mwyn osgoi heriau cyfreithiol llwyddiannus ac fel y gellid dangos bod sylw dyledus yn cael ei roi i’r Confensiwn ym mhob achos. Byddai’r ddyletswydd hon yn cymhwyso’r un gofyniad i gyrff cyhoeddus ag i Weinidogion Cymru.

1.28 Gan y byddai’r ddyletswydd hon yn eang ei heffaith ac y bydd yn cynnwys asiantau gweithredu, er enghraifft Awdurdodau Lleol, mae cam deddfwriaethol sylweddol o’r fath yn haeddu ystyriaeth ofalus. Ar hyn o bryd, mae’n bosibl y byddai gosod dyletswydd o’r fath ar asiantau gweithredu yn creu beichiau sydd heb eu rhagweld ac sydd heb eu costio eto, yn benodol ar gyrff datganoledig (ee asiantau gweithredu), y byddai angen iddynt ystyried y Confensiwn ym mhob agwedd ar y gwasanaethau y maent yn eu darparu ar hyn o bryd ac a ydynt yn rhoi ystyriaeth a phwysau priodol i ofynion y Confensiwn.

1.29 Nid arweiniodd yr ymgynghoriad cyhoeddus at unrhyw alw gwirioneddol i estyn y ddyletswydd i roi sylw dyledus y tu hwnt i Weinidogion Cymru a’r Prif Weinidog ar hyn o bryd. Dull Llywodraeth Cynulliad Cymru fu cyfyngu ar gymhwyso’r ddyletswydd honno yn y Mesur arfaethedig hwn i’r gwaith o arfer swyddogaethau gweinidogol Llywodraeth Cynulliad Cymru oherwydd mai trwy arfer y swyddogaethau hynny y darperir llawer o’r gwasanaethau trwy gyrff datganoledig yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o’r farn, felly, y

dylai ffocws y ddyletswydd i roi sylw dyledus fod ar swyddogaethau gweinidogol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

## 2. Costau a manteision

### Opsiwn 1 – Gwneud dim

2.1 Mae Opsiwn 1 yn cynnal status quo safbwynt presennol polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n ystyried y Saith Nod Craidd. Nid yw'n golygu unrhyw gost ychwanegol i Lywodraeth Cynulliad Cymru nac i unrhyw sefydliad allanol arall. Nid oes gofyniad i sefydlu gweithdrefnau gweinyddu a chydymffurfio er y gall Gweinidogion Cymru ddewis gwneud hynny os ystyriant fod hynny'n briodol.

2.2 Heb ddyletswydd statudol, byddai rhywfaint o gynnydd yn dal i ddigwydd o ran cyflawni amcanion rhai o erthyglau'r Confensiwn yn hytrach na'r holl hawliau sylfaenol sydd ynddo. Fodd bynnag, byddai'r cynnydd hwn yn dibynnu ar ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru a lefel yr wybodaeth, y blaenoriaethau a'r adnoddau ar unrhyw adeg benodol. Byddai'r cynnydd yn gyfyngedig, felly, a gallai'r gweithredu fod yn anghyson yng ngwahanol feysydd polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru. Heb systemau monitro ychwanegol, byddai'n anodd mesur cynnydd.

2.3 Heb sail statudol, fodd bynnag, bydd yr angen i hyrwyddo'r polisi mewn ffordd broactif yn parhau, er mwyn cynnal y momentwm, os ydym i barhau i symud ymlaen.

2.4 Ni fyddai’r opsiwn hwn yn cydymffurfio â Sylwadau Clo Pwyllgor y CU (2008) a oedd yn codi pryderon ynghylch y diffyg cynnydd o ran ymgorffori’r Confensiwn yn neddfwriaeth ddomestig y DU (gan gynnwys y ddeddfwriaeth a wnaed yn y Gweinyddiaethau Datganoledig).

### Opsiwn 2 - Cyflwyno Mesur i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru (a’r Prif Weinidog) i roi sylw dyledus i’r Confensiwn wrth wneud penderfyniadau strategol am sut i arfer eu swyddogaethau

2.5 Byddai'r opsiwn hwn yn sefydlu'r arfer o ystyried y Confensiwn yn neddfwriaeth Cymru a byddai'n sicrhau bod Gweinidogion yn rhoi ystyriaeth lawn, gywir a phriodol i'r Confensiwn wrth wneud penderfyniadau ar lefel strategol. Bydd y trefniadau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth yn gofalu bod tystiolaeth briodol i'r ffaith bod y ddyletswydd wedi'i chyflawni, at ddibenion monitro a gwerthuso, rhywbeth a fyddai'n hanfodol pe codai her gyfreithiol. Byddai'r trefniadau hyn yn arwain at ddull systemataidd o gasglu tystiolaeth am sut mae swyddogion a Gweinidogion wedi rhoi sylw dyledus i'r Confensiwn yn eu prosesau penderfynu, ac effaith y ddyletswydd yn benodol, gydag adroddiadau yn cael eu cyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Confensiwn drwy ei gylch adrodd.

2.6 Byddai'r dull gweithredu hwn yn gam tuag at gyflawni'r amcan polisi drwy sicrhau cynnydd parhaus tuag at weithredu'r Confensiwn yn llawnach o fewn y meysydd polisi a'r penderfyniadau polisi strategol y datganolwyd cyfrifoldeb i Lywodraeth Cynulliad Cymru drostynt. Mae'r dull o roi sylw dyledus yn caniatáu i Weinidogion gydbwyso ystyriaeth o'r Confensiwn â ffactorau eraill (gan gynnwys yr adnoddau sydd ar gael) wrth wneud eu penderfyniadau ynghylch a allant roi effaith bellach neu well i'r hawliau a'r rhwymedigaethau yn y Confensiwn ar lefel strategol a sut.

2.7 Byddai'r opsiwn hwn yn cyflwyno gorfodaeth i ystyried y Confensiwn wrth wneud penderfyniadau/polisïau strategol; byddai'r ddyletswydd, felly, yn galw am lefel o wybodaeth ac arbenigedd ymhlith swyddogion a chyfreithwyr allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru, unedau cydymffurfiaeth canolog a Gweinidogion, sy’n uwch na’r hyn sy’n arferol ar hyn o bryd. Byddai angen mynd i'r afael â goblygiadau hyfforddi a datblygu, a byddai angen datblygu prosesau a systemau mewnol i fonitro a gwerthuso sut y cymhwysir y ddyletswydd, a chynnal y sylfaen dystiolaeth angenrheidiol.

2.8 Byddai datblygu a gweithredu cynllun y plant yn galw am adnodd staff mewnol. At hynny, byddai’n ddoeth ymgynghori ag arbenigwyr allanol o’r cychwyn.

2.9 Dyma amcan bras o'r gost sy’n gysylltiedig â gweithredu’r cynigion ar gyfer y Mesur hwn:

*Cam 1*

2.10 Bydd y cam hwn yn ei gwneud yn ofynnol sefydlu tîm canolog ym mis Gorffennaf 2010 i ddatblygu cynllun drafft y plant, gan weithio ar y cyd â phartneriaid allanol. Bydd angen ymgynghori ar y cynllun yn allanol. Yna bydd yn ofynnol i’r tîm ddatblygu a rhoi’r systemau a’r prosesau angenrheidiol ar waith i sicrhau y cydymffurfir â’r ddyletswydd i roi “sylw dyledus”, gan gynnwys y dulliau asesu effaith a fydd yn helpu swyddogion i gyflawni’r ddyletswydd i roi “sylw dyledus”. Bydd y gwaith hwn yn golygu treialu’r deunyddiau i sicrhau eu bod yn addas-i’r-diben.

2.11 Bydd y tîm hefyd yn datblygu amrywiaeth o ddeunyddiau hyfforddi i godi ymwybyddiaeth o’r Confensiwn a’r defnydd o’r dulliau asesu effaith. Bydd angen datblygu a gweithredu systemau cymedroli i sicrhau bod y ddyletswydd yn cael ei chymhwyso mewn ffordd weddol debyg ar draws holl adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd yr uned ganolog yn sicrhau bod system werthuso yn cael ei sefydlu i helpu i ddarparu tystiolaeth ar gyfer y gofynion adrodd sy’n ofynnol gan y Mesur.

2.12 Mae’r costau a amcangyfrifir ar gyfer amser staff yn cynyddu bob blwyddyn yn ystod y 2 flynedd gyntaf, gan roi ystyriaeth i’r costau rhan-flwyddyn yn 2010/11, costau’r flwyddyn lawn yn 2011/12 a’r gost staffio ychwanegol sy’n ofynnol wrth fonitro gweithredu’r cynllun o fewn Adrannau o 2012 ymlaen.

2.13 O’r drydedd flwyddyn, (2012/13), rydym yn disgwyl i gostau staff ddechrau gostwng mewn perthynas â’r tîm cydgysylltu canolog o lefel uwch 2011/12, wrth ddechrau’r broses o alinio ac, yn y pen draw, integreiddio’r trefniadau adrodd yn llawn yn erbyn cynllun y plant â phrosesau adrodd a chynllunio presennol y Confensiwn. Fodd bynnag, o hynny ymlaen bydd cynnydd bach yng nghost gweithredu Unedau Busnes Adrannau wrth i’r ddyletswydd i roi sylw dyledus gael ei rhoi ar waith.

*Cam 2*

2.14 Bydd costau’r cam hwn yn cynnwys darparu cyrsiau hyfforddi a’r amser yr amcangyfrifir y bydd staff i ffwrdd o’u gwaith arferol bob dydd, wrth dderbyn hyfforddiant (costau cyfleoedd) ym mlwyddyn 2.

*Blwyddyn 1 rhwng Gorffennaf 2010 a Mawrth 2011*

| Gofynion | Costau |
|---|---|
| Adnodd staff (tîm gweithredu/cydgysylltu canolog yn ogystal â chynghorydd cyfreithiol canolog) i ddatblygu a gweithredu'r cynllun, a phrosesau mewnol. | £209,000 |
| Datblygu hyfforddiant a dulliau asesu effaith | £145,000 |
| **Cyfanswm costau gwirioneddol** | **£ 354,000** |

*Blwyddyn 2 rhwng Ebrill 2011 a Mawrth 2012*

| Gofynion | Costau |
|---|---|
| Staff i sicrhau bod y cynllun yn cael ei weithredu ac y cydymffurfir ag ef gan gynnwys yr ymgynghoriad ar gynllun y plant | £279,000 |
| Hyfforddiant cyfreithiol ac arbenigol | £35,0000 |
| **Cyfanswm costau gwirioneddol** | **£314,000** |
| Costau cyfleoedd hyfforddi | £290,000 |
| **Cyfanswm costau cyfleoedd** | **£290,000** |

Blwyddyn 3

| Gofynion | |
|---|---|
| Staff i sicrhau cymorth, cydymffurfio a monitro a gwerthuso parhaus | £272,000 |
| **Cyfanswm costau gwirioneddol** | **£272,000** |
| Amcan o’r costau i gyflawni’r gofynion ychwanegol i ystyried y ddyletswydd i roi “sylw dyledus” | £299,000 |
| **Cyfanswm costau cyfleoedd** | **£299,000** |

2.15 Caiff y costau hyn eu talu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Opsiwn 3 - Cyflwyno Mesur i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru (a'r Prif Weinidog) i roi sylw dyledus i'r Confensiwn am gyfnod interim wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth, ac yna ar ôl y cyfnod interim pan fyddant yn arfer unrhyw un o'u swyddogaethau.**

2.16 Byddai'r opsiwn hwn yn bodloni'r amcan polisi o sefydlu'r arfer o ystyried y Confensiwn yn neddfwriaeth Cymru a byddai'n sicrhau bod Gweinidogion yn rhoi ystyriaeth lawn, gywir a phriodol i'r Confensiwn i ddechrau wrth wneud penderfyniadau am ddatblygu polisi a deddfwriaeth, ac yna wrth arfer swyddogaethau. Mae'r opsiwn hefyd yn ymateb i bryderon a godwyd, mewn perthynas â'r Mesur arfaethedig fel y'i cyflwynwyd, am ddiffyg tryloywder, eglurder a chymhwysiad digonol y ddyletswydd i roi sylw dyledus ar draws portffolios ac ar draws Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r opsiwn hwn yn ymgorffori'r gwelliannau a wnaed yng ngham 2.

2.17 Bydd y trefniadau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus yn sicrhau bod tystiolaeth o drywydd archwilio clir mewn perthynas â'r ddyletswydd ac y caiff y dystiolaeth ei monitro yn ôl yr angen yn yr amgylchiadau. Mae'r opsiwn hwn yn ddull eglur o wireddu'n raddol y Confensiwn drwy, yn gyntaf, weithredu'r ddyletswydd yn raddol ac, yn ail, gan fod y ddyletswydd ei hun i roi sylw dyledus yn ei gwneud yn bosibl gwireddu'r Confensiwn yn raddol. Mae'r opsiwn hwn yn ymateb i'r pryderon a godwyd drwy'r dystiolaeth a gyflwynwyd ar y cam craffu ac argymhellion mewn adroddiadau pwyllgor ac mae'n ymgorffori gwelliannau Cam 2.

2.18 Bydd y trefniadau ar gyfer cydymffurfiaeth a amlinellir o fewn y cynllun yn cynnwys systemau a phrosesau ar gyfer casglu tystiolaeth am sut mae swyddogion a Gweinidogion wedi rhoi sylw dyledus i'r Confensiwn.

2.19 Byddai'r dull hwn yn gymorth mawr i gyflawni'r amcan polisi drwy sicrhau cynnydd parhaus tuag at weithredu'r Confensiwn yn llawnach o fewn y meysydd y datganolwyd cyfrifoldeb i Lywodraeth Cynulliad Cymru drostynt. Mae'r dull o roi sylw dyledus yn caniatáu i Weinidogion gydbwyso ystyriaeth o p'un a allant roi effaith bellach neu well i hawliau a rhwymedigaethau'r Confensiwn, a sut, â ffactorau eraill perthnasol (a allai gynnwys yr adnoddau sydd ar gael).

2.20 Fel yn achos opsiynau eraill, mae'r opsiwn hwn yn cyflwyno ystyriaeth orfodol o'r Confensiwn. Yn hynny o beth, byddai'r ddyletswydd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol datblygu lefel o wybodaeth ac arbenigedd ymhlith swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru (gan gynnwys cyfreithwyr a staff unedau cydymffurfiaeth canolog) a Gweinidogion. Unwaith eto, bydd y lefel hon o wybodaeth a dealltwriaeth yn uwch na'r hyn sy'n bodoli ar hyn o bryd. Bydd angen monitro sut y gweithredir hyfforddiant a datblygiad a phrosesau mewnol a'r systemau a ddatblygir er mwyn sicrhau y datblygir y sylfaen dystiolaeth angenrheidiol.

2.21 Byddai datblygu a gweithredu'r cynllun plant yn galw am adnodd staff mewnol. Yn ogystal, byddai'n ddoeth o'r cychwyn cyntaf, wrth ddatblygu'r cynllun, cydweithio ag arbenigwyr allanol sy'n cyfrannu i'r gwaith datblygu.

2.22 Mae manylion y gweithredu dan ystyriaeth ar hyn o bryd a chânt eu datblygu i sefydlu'r prosesau mwyaf effeithiol ac effeithlon. Rhoddir ystyriaeth hefyd i sut mae'r ddyletswydd hon yn cydweddu â dyletswyddau eraill sy'n seiliedig ar hawliau a dyletswyddau eraill i roi sylw dyledus y mae Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio â hwy i nodi unrhyw synergedd mewn perthynas â'r gweithredu a'r prosesau.

2.23 Darperir amcan bras y gost o gyflawni'r cynigion ar gyfer y Mesur hwn dros gyfnod o bum mlynedd i adlewyrchu natur raddol y ddyletswydd o dan y cynnig hwn:

*Cam 1*

2.24 Caiff tîm canolog ei sefydlu ym mis Gorffennaf 2010 i ddatblygu'r trefniadau gweithredu. Bydd y tîm hefyd yn datblygu cynllun drafft y plant, gan weithio ar y cyd â phartneriaid allanol. Bydd angen ymgynghori ar y cynllun yn allanol. Yna bydd yn ofynnol i'r tîm ddatblygu a rhoi'r systemau a'r prosesau angenrheidiol ar waith i sicrhau y cydymffurfir â'r ddyletswydd i roi "sylw dyledus", gan gynnwys y dulliau asesu effaith a fydd yn helpu swyddogion i gyflawni'r ddyletswydd i roi "sylw dyledus". Bydd y gwaith hwn yn golygu treialu'r deunyddiau i sicrhau eu bod yn addas i'r diben.

2.25 Bydd y tîm hefyd yn datblygu amrywiaeth o ddeunyddiau hyfforddi i godi ymwybyddiaeth o'r Confensiwn a'r defnydd o'r dulliau asesu effaith. Bydd angen datblygu a gweithredu systemau cymedroli a rheoli ansawdd i sicrhau bod y ddyletswydd yn cael ei chymhwyso mewn ffordd gyson ar draws holl adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd yr uned ganolog yn sicrhau bod system werthuso yn cael ei sefydlu i helpu i ddarparu tystiolaeth ar gyfer y gofynion adrodd sy'n ofynnol gan y Mesur.

2.26 Mae'r costau a amcangyfrifir ar gyfer amser staff yn cynyddu yn ystod y 2 flynedd gyntaf, gan roi ystyriaeth i'r costau rhan-flwyddyn yn 2010/11, costau'r flwyddyn lawn yn 2011/12 a'r gost staffio sy'n ofynnol wrth fonitro gweithredu'r cynllun.

2.27 Bydd cynnydd bach yng nghost gweithredu Unedau Busnes Adrannau wrth i'r ddyletswydd i roi sylw dyledus gael ei rhoi ar waith.

*Cam 2*

2.28 Bydd costau'r cam hwn yn cynnwys darparu cyrsiau hyfforddi a'r amser yr amcangyfrifir y bydd staff i ffwrdd o'u gwaith arferol bob dydd, wrth dderbyn hyfforddiant (costau cyfleoedd) ym mlwyddyn 2, a chost cyfleoedd cydymffurfio â'r ddyletswydd interim o fis Mai 2012.

*Cam 3*

2.29 Ar y cam hwn, mae’r costau yn ymwneud â’r newid yng nghwmpas y ddyletswydd a gaiff ei roi ar waith ar 1 Mai 2014 pan gymhwysir y ddyletswydd i roi sylw dyledus i waith arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru.

*Blwyddyn 1 rhwng Gorffennaf 2010 a Mawrth 2011*

| Gofynion | Costau |
|---|---|
| Adnodd staff (tîm gweithredu/cydgysylltu canolog yn ogystal â chynghorydd cyfreithiol canolog) i ddatblygu a gweithredu'r cynllun, a phrosesau mewnol. | £74,094 |
| Datblygu hyfforddiant a dulliau asesu effaith | £30,000 |
| **Cyfanswm costau gwirioneddol** | **£ 104,094** |

*Blwyddyn 2 rhwng Ebrill 2011 a Mawrth 2012*

| Gofynion | Costau |
|---|---|
| Staff i sicrhau bod y cynllun yn cael ei weithredu ac y cydymffurfir ag ef gan gynnwys yr ymgynghoriad ar gynllun y plant | £278,363 |
| Ymgynghori | £21,200 |
| Hyfforddi | £150,000 |
| | |
| **Cyfanswm costau gwirioneddol** | **£449,563** |
| Costau cyfleoedd hyfforddi | £314,770 |
| Costau cyfleoedd ar gyfer Unedau Busnes | £3,794 |
| | |
| **Cyfanswm costau cyfleoedd** | **£318,564** |

*Blwyddyn 3 rhwng Ebrill 2012 a Mawrth 2013*

| Gofynion | Costau |
|---|---|
| Staff i sicrhau bod y cynllun yn cael ei weithredu ac y cydymffurfir ag ef gan gynnwys yr ymgynghoriad ar adran 7 | £278,363 |
| Ymgynghori | £21,200 |
| **Cyfanswm costau gwirioneddol** | **£299,563** |
| Costau cyfleoedd cydymffurfio â’r ddyletswydd i roi sylw dyledus | £377,374 |
| Costau cyfleoedd ar gyfer Unedau | £15,175 |

| | |
|---|---|
| Busnes | |
| **Cyfanswm costau cyfleoedd** | **£392,549** |

*Blwyddyn 4 rhwng Ebrill 2013 a Mawrth 2014*

| Gofynion | Costau |
|---|---|
| Staff i sicrhau bod y cynllun yn cael ei weithredu ac y cydymffurfir ag ef | £278,363 |
| Hyfforddi ychwanegol cyn newid y ddyletswydd | £15,000 |
| **Cyfanswm costau gwirioneddol** | **£293,363** |
| Costau cyfleoedd ar gyfer hyfforddi ychwanegol | £156,427 |
| Costau cyfleoedd ar gyfer Unedau Busnes | £5,935 |
| **Cyfanswm costau cyfleoedd** | **£162,362** |

*Blwyddyn 5*

| Gofynion | Costau |
|---|---|
| Staff i sicrhau cymorth, cydymffurfio a monitro a gwerthuso parhaus | £278,363 |
| **Cyfanswm costau gwirioneddol** | **£278,363** |
| Amcan o'r costau cyfleoedd i gyflawni'r ddyletswydd ddiwygiedig i roi "sylw dyledus" | £594,251 |
| Costau cyfleoedd ar gyfer Unedau Busnes | £23,740 |
| **Cyfanswm costau cyfleoedd** | **£617,991** |

2.30 Caiff y costau hyn eu talu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Opsiwn 4 - Cyflwyno Mesur i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a'r Prif Weinidog roi sylw dyledus i'r Confensiwn wrth arfer (o leiaf i ddechrau) ystod gyfyngedig o swyddogaethau Gweinidogol (y dull gweithredu swyddogaethau perthnasol).**

2.31 Roedd y cynnig gwreiddiol, a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, yn caniatáu disgresiwn ynghylch yr hyn a ystyrid yn swyddogaethau perthnasol. Mae'n bosibl bod nodi'r camau dros gyfnod o 10-15 mlynedd wedi helpu i reoli goblygiadau cost cyflawni'r brif ddyletswydd.

2.32 Un o fanteision gweithredu fel hyn fyddai system weithredu raddol gan gyflwyno'r swyddogaethau yn ofalus, fesul cam, gydag opsiwn yn y pen draw i gynnwys pob swyddogaeth yn y cynllun yn y dyfodol.

2.33 Byddai'r dull hwn o benderfynu pa swyddogaethau fyddai yn y cynllun yn agored i'r cyhoedd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru graffu arno, gan sicrhau gweithredu democrataidd.

2.34 Mae'r costau sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn yn seiliedig ar y gofynion y byddai angen llai o hyfforddi a datblygu mewn rhai meysydd yn y tymor byr, i sicrhau bod pob rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru yn cydymffurfio, ond byddai'r gofynion ar gyfer cymorth canolog a chyfreithiol yn parhau.

2.35 Dyma amcan o'r gost sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cynigion ar gyfer yr opsiwn hwn:

*Cam 1*

2.36 Bydd y cam hwn yn ei gwneud yn ofynnol i dîm canolog ddatblygu yn y lle cyntaf restr o'r swyddogaethau posibl y gellid eu cynnwys yn y cynllun. Byddai'r rhestr hon wedyn yn ffurfio rhan o gynllun drafft y plant, yr ymgynghorir arni gyda rhanddeiliaid allanol. Yna bydd yn ofynnol i'r tîm ddatblygu'r systemau a'r prosesau angenrheidiol i sicrhau y cydymffurfir â'r ddyletswydd i roi "sylw dyledus". Byddant yn creu'r dulliau asesu effaith a fydd yn helpu swyddogion i fodloni'r ddyletswydd i roi "sylw dyledus". Bydd y gwaith hwn yn cynnwys treialu'r deunyddiau i sicrhau eu bod yn addas i'r diben. Byddai'r tîm yn datblygu ystod o ddeunyddiau hyfforddi a fydd yn codi ymwybyddiaeth o'r Confensiwn a sut bydd angen defnyddio'r asesiad effaith. Bydd yr uned ganolog yn sicrhau bod system werthuso yn ei lle, a fydd yn casglu amrywiaeth o ddata a fydd yn helpu i ddarparu tystiolaeth ar gyfer y gofynion adrodd yn y Mesur.

2.37 Mae'r costau a amcangyfrifir ar gyfer amser staff yn cynyddu bob blwyddyn, hyd at y drydedd flwyddyn. Mae hyn yn rhoi ystyriaeth i'r costau rhan-flwyddyn yn 2010/11, costau'r flwyddyn lawn yn 2011/12 a'r gost staffio ychwanegol sy'n ofynnol wrth fonitro gweithredu'r cynllun o fewn Adrannau o 2012 ymlaen.

*Cam 2*

2.38 Darparu cyrsiau hyfforddi a'r amser yr amcangyfrifir y bydd staff i ffwrdd o'u gwaith arferol bob dydd, wrth dderbyn hyfforddiant (costau cyfleoedd) ym mlwyddyn 2. Costau ystyried y ddyletswydd i roi "sylw dyledus" ar ôl ei chychwyn.

*Blwyddyn 1 rhwng Gorffennaf 2010 a Mawrth 2011*

| Gofynion | Costau |
|---|---|
| Staff i sicrhau datblygiad angenrheidiol y cynllun, y prosesau i sicrhau y gwerthusir graddau'r cydymffurfio | £209,000 |

| | |
|---|---|
| Datblygu hyfforddiant a dulliau asesu effaith | £145,000 |
| **Cyfanswm costau gwirioneddol** | **£354,000** |

*Blwyddyn 2 rhwng Ebrill 2011 a Mawrth 2012*

| Gofynion | Costau |
|---|---|
| Staff i sicrhau bod y cynllun yn cael ei weithredu ac y cydymffurfir ag ef gan gynnwys yr ymgynghoriad ar gynllun y plant | £279,000 |
| Hyfforddiant cyfreithiol ac arbenigol | £35,000 |
| **Cyfanswm costau gwirioneddol** | **£314,000** |
| Costau cyfleoedd hyfforddi | £221,000 |
| **Cyfanswm costau cyfleoedd** | **£221,000** |

Blwyddyn 3

| Gofynion | Costau |
|---|---|
| Staff i sicrhau bod y cynllun yn cael ei weithredu ac y cydymffurfir ag ef gan gynnwys monitro a gwerthuso | £272,000 |
| **Cyfanswm costau gwirioneddol** | **£272,000** |
| Amcan o'r costau i gyflawni'r gofynion ychwanegol i ystyried y ddyletswydd i roi "sylw dyledus" | £150,000 |
| **Cyfanswm costau cyfleoedd** | **£150,000** |

2.39 Mae'r costau canolog a chreu'r dulliau a'r hyfforddiant angenrheidiol yn parhau'r un fath ag yn opsiwn 2. Mae'r gofyniad i ymgynghori ar gynllun y plant a datblygu'r prosesau gwerthuso a chydymffurfio angenrheidiol hefyd yn parhau'r un fath. Fodd bynnag, bydd gostyngiad yn y costau cyfleoedd a amcangyfrifir gan y byddai angen hyfforddi nifer lai o swyddogion gan mai dim ond cyfran o'r nifer cyffredinol o swyddogaethau fyddai ar gael o bosibl. Byddai angen llai o amser swyddogol a chyfreithiol hefyd i ystyried y ddyletswydd i roi "sylw dyledus" gan y byddai nifer y swyddogaethau yn cael eu lleihau.

2.40 Caiff y costau hyn eu talu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Opsiwn 5 – Cyflwyno Mesur i gymhwyso dyletswydd gyffredinol i roi sylw dyledus i'r Confensiwn i Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r cyrff datganoledig yng Nghymru**

2.41 Ymhlith manteision yr opsiwn hwn fyddai dull gweithredu cydlynus o'r Llywodraeth i bartneriaid cyflenwi lleol wrth fwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu polisi a chyflenwi, gan roi "sylw dyledus" i'r Confensiwn.

2.42 Byddai'n rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru a phartneriaid lleol ystyried sut byddai’r ddyletswydd i roi "sylw dyledus" yn cael ei chymhwyso wrth gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc.

2.43 Disgwylir i gostau dull gweithredu o'r fath fod yn sylweddol gan y byddai'n ofynnol i'r holl staff yn y sefydliadau a restrir ym Mater 15.6 Atodlen 5 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 fod yn gwbl gyfarwydd â'r Confensiwn a sut y'i cymhwysir yn unol â'r ddyletswydd arfaethedig i roi "sylw dyledus".

2.44 Ni chynhaliwyd dadansoddiad o'r costau sy’n gysylltiedig â’r opsiwn hwn gan ei bod yn glir y byddai'n ofynnol i'r sefydliadau hynny y byddai angen iddynt weithredu gael adnodd ychwanegol oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru i sefydlu'r prosesau cydymffurfio gofynnol, gan gynnwys hyfforddiant ar gyfer eu staff.

2.45 Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'r canllawiau cynllunio i awdurdodau lleol a'u partneriaid perthnasol yn ei gwneud yn glir y dylent roi ystyriaeth i'r hawliau hyn (y Confensiwn) wrth ddarparu gwasanaethau. Mae'r gofyniad hwn, er nad yw'n llawn ystyried erthyglau'r Confensiwn o ran sylw dyledus, yn mynd rywfaint o ffordd i'w gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol a phartneriaid eraill sy'n cydweithio â hwy lynu wrth ddarpariaethau'r Confensiwn yng nghyd-destun cynllunio a darparu gwasanaethau.

2.46 Ystyrir goblygiadau ariannol yr opsiwn hwn yn rhai heriol, ac mae angen adolygu'r holl wasanaethau. Ystyriwyd yr opsiwn hwn, felly, yn anymarferol ac yn amhosibl ei weithredu ar hyn o bryd.

## 3. Cymhwyso

3.1 Rhaid i Weinidogion Cymru a’r Prif Weinidog roi sylw dyledus i’r hawliau a’r rhwymedigaethau sylfaenol yn y Confensiwn

a) Wrth wneud unrhyw benderfyniad am lunio, adolygu neu newid polisïau neu am ddeddfwriaeth arfaethedig rhwng 1 Mai 2012 a 30 Ebrill 2014

b) Wrth arfer eu swyddogaethau o 1 Mai 2014.

## 4. Asesu cystadleuaeth

4.1 Mae'n rhaid cwblhau'r ffiltr cystadleuaeth os yw'r Mesur arfaethedig yn effeithio ar fusnes, elusennau a/neu'r sector gwirfoddol. Nid oes rhaid cwblhau'r ffiltr gan nad yw'r Mesur yn effeithio ar y sectorau hynny.

**5. Cynlluniau gweithredu**

5.1 Yn y dyfodol agos, caiff cynlluniau eu datblygu ar gyfer gweithredu'r ddeddfwriaeth newydd. Disgwylir:

- cychwyn gweithgarwch sy’n ymwneud â datblygu'r drafft cyntaf o gynllun y plant ym mis Mawrth 2011 neu cyn hynny

- Cyn Mawrth 2012, bydd angen i swyddogion holl adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru gael hyfforddiant i godi eu hymwybyddiaeth am y Confensiwn a'i oblygiadau ar gyfer eu gwaith. Bydd angen hyfforddiant ychwanegol ar y prif swyddogion polisi a’r cynghorwyr cyfreithiol, er enghraifft i gynnal asesiadau effaith y Confensiwn, yn ogystal ag i gofnodi graddau'r cydymffurfio â'r ddyletswydd i roi "sylw dyledus", a bydd angen hyfforddiant ar staff unedau busnes i weithredu'r system fonitro a sefydlir ar draws Llywodraeth Cynulliad Cymru.

- Bydd y gwaith ar ddatblygu adnoddau hyfforddi yn dechrau tua diwedd 2010, gyda’r hyfforddiant yn cael ei gyflwyno o 2011 ymlaen. Bydd hyn yn sicrhau y bydd y 'don' gyntaf o hyfforddiant eisoes wedi'i chwblhau erbyn i'r cynllun drafft cyntaf gael ei osod cyn neu ar 31 Mawrth 2012 ac erbyn i'r systemau gael eu rhoi ar waith yn fuan wedyn. Bydd yr hyfforddiant hwn yn rhoi blaenoriaeth i’r rhai sy’n datblygu neu’n adolygu polisi neu ddeddfwriaeth yn ystod y ddwy flynedd gyntaf pan fydd y ddyletswydd yn berthnasol.

- Y bwriad wedyn yw ymgorffori'r gwahanol fodiwlau hyfforddi i'r rhaglen hyfforddi safonol i swyddogion ar draws Llywodraeth Cynulliad Cymru, gyda'r modiwl codi ymwybyddiaeth yn dod yn elfen orfodol o'r cwrs sefydlu i staff newydd a'r modiwlau mwy arbenigol yn cael eu cynnig fel opsiynau i staff perthnasol.

- Bydd swyddogion y Gwasanaethau Cyfreithiol yn cael hyfforddiant perthnasol er mwyn ategu'r broses o sicrhau y cydymffurfir â’r ddyletswydd i roi "sylw dyledus" o Ebrill 2012.

- Bydd rhanddeiliaid yn dechrau cyfrannu i’r gwaith o ddatblygu’r cynllun drafft ym mis Mawrth 2011. Bydd trefniadau ymgynghori ar y cynllun drafft yn cynnwys dogfennau a methodolegau sy'n hwylus i blant a phobl ifanc yn unol â Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Cymru. Bwriedir dechrau proses ymgynghori tri mis ym Medi 2011.

- Yn dilyn yr ymgynghoriad, caiff y cynllun drafft ei ddiwygio yn ôl yr angen mewn ymateb i sylwadau a wnaed a gosodir fersiwn derfynol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'w chymeradwyo ar 31 Mawrth 2012 neu cyn hynny.

- Daw’r Mesur i rym ddau fis ar ôl derbyn cymeradwyaeth Ei Mawrhydi. O’r dyddiad hwn, caiff darpariaethau’r Mesur eu rhoi ar waith. Bydd y dyletswyddau i roi sylw dyledus yn berthnasol o’r dyddiadau a nodwyd yn benodol yn y Mesur.

## 6. Adolygiad ôl-weithredol

6.1 Mae gofyniad o fewn y Mesur arfaethedig ar i adroddiadau gael eu llunio fel rhan o'r gofynion i roi adroddiad ar y ddyletswydd i roi sylw dyledus. Bydd y cyntaf o'r adroddiadau hyn yn ofynnol ym mis Ionawr 2013 neu cyn hynny. Bydd hyn yn darparu tystiolaeth o sut mae Gweinidogion Cymru wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus yn ystod 6-8 mis cyntaf ei chymhwysiad.

6.2 Disgwylir y gyfres nesaf o Sylwadau Clo Pwyllgor y Confensiwn mewn perthynas â pharti gwladwriaeth y DU tuag at ddiwedd 2014. Mae'r rhain yn debygol o arwain at ystyriaeth ynghylch a oes angen adolygu'r cynllun. Rhaid i'r ystyriaeth ynghylch a oes angen adolygu'r cynllun ddigwydd o fewn y cyfnod chwe mis ar ôl i Bwyllgor y CU wneud awgrymiadau neu argymhellion mewn ymateb i adroddiad gan barti gwladwriaeth y DU am yr hyn a wnaed i weithredu'r hawliau yn y Confensiwn. Fel rheol mae sylwadau clo Pwyllgor y Confensiwn am ei archwiliad o Barti Gwladwriaeth y DU yn cynnwys awgrymiadau ac argymhellion.

## Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2010

## Nodiadau Esboniadol

### Cyflwyniad

Mae'r nodiadau esboniadol hyn yn ymwneud â'r Mesur arfaethedig ynghylch Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2010. Mae'r nodiadau wedi eu paratoi gan Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn cynorthwyo'r darllenydd i ddeall y Mesur arfaethedig. Nid ydynt yn rhan o'r Mesur arfaethedig nac wedi eu hategu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Dylid darllen y nodiadau ar y cyd â'r Mesur arfaethedig. Nid ydynt, ac ni fwriedir iddynt fod, yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Mesur arfaethedig. Felly, pan fo'n ymddangos nad oes angen unrhyw esboniad neu sylw ar adran neu ran o adran, nis rhoddir.

Mae'r Mesur yn rhoi effaith bellach mewn cyfraith ddomestig i ddarpariaethau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r Protocolau Dewisol iddo.

### Y Cefndir

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ("y Confensiwn") yn gonfensiwn rhyngwladol sy'n nodi hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol plant. Cymeradwywyd testun y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn gan Aelod-wladwriaethau'r Cenhedloedd Unedig ar 20 Tachwedd 1989.

Ar 16 Rhagfyr 1991, cadarnhaodd Llywodraeth Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon y Confensiwn a daeth i rym yn y Deyrnas Unedig ar 15 Ionawr 1992.

Mae'r Deyrnas Unedig wedi cadarnhau hefyd ddau Brotocol Dewisol i'r Confensiwn. Mae'r cyntaf o'r rhain yn ymwneud â chynnwys plant mewn gwrthdrawiadau arfog, ac mae'r ail yn ymwneud â gwerthu plant, puteindra plant a phornograffi plant.

Mae'n ofynnol o dan erthygl 44(1)(b) o'r Confensiwn i wledydd sydd wedi ei gadarnhau gyflwyno bob 5 mlynedd i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ("y Pwyllgor") adroddiad sy'n rhoi manylion y cynnydd a wnaed ganddynt tuag at weithredu'n llawn y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol a chaniateir i'r gwledydd hyn ymddangos gerbron y Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor wedi ei sefydlu o dan erthygl 43(1) o'r Confensiwn at ddiben archwilio'r cynnydd sydd wedi ei wneud gan Bartïon Gwladwriaethau tuag at

ei weithredu. Mae'r Pwyllgor wedi ei ffurfio o ddeg arbenigwr yn y meysydd a gwmpesir gan y Confensiwn, a'r rheini'n arbenigwyr sydd wedi eu hethol i'r Pwyllgor gan y Gwladwriaethau sy'n bartïon i'r Confensiwn.

Yn Ionawr 2004, mabwysiadodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a gyfansoddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, y Confensiwn fel sail i ategu ei bolisïau ynghylch plant a phobl ifanc 0 i 25 oed (h.y. gan gynnwys y rhai sy’n 25 oed) a thrwy hynny atgyfnerthodd y “Saith Nod Craidd” yr oedd wedi eu llunio yn 2002 ar gyfer plant a phobl ifanc ar sail y Confensiwn. Trosglwyddwyd y rhan fwyaf o swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a gyfansoddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae Gweinidogion Cymru yn rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Wrth lunio ei pholisïau ynghylch plant a phobl ifanc yng Nghymru mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyfeirio at ddau grŵp oedran. Cyfeirir at blant sydd o dan 11 oed fel “plant”, a chyfeirir at bobl sy'n 11 i 25 mlwydd oed fel “pobl ifanc”. Yn y Mesur hwn cyfeirir at bobl sydd o dan 18 oed fel “plant”, a chyfeirir at y rhai sy'n 18 i 24 mlwydd oed (h.y. gan gynnwys y rhai sy’n 24 oed) fel “pobl ifanc”. Mabwysiadwyd y dull gweithredu hwn er mwyn bod yn gyson â’r Confensiwn ac â Mater 15.6 yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, y deilliodd y cymhwyster deddfwriaethol ar gyfer y Mesur hwn ohono.

**Adran 1 - Dyletswydd i roi sylw dyledus i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn**

Mae’r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i ofynion –

(a) Rhan 1 o'r Confensiwn,

(b) erthyglau 1 i 7, ac eithrio erthygl 6(2), o'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar gynnwys plant mewn gwrthdrawiadau arfog, ac

(c) erthyglau 1 i 10 o'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar werthu plant, puteindra plant a phornograffi plant.

Yn y nodiadau hyn, cyfeirir at y ddyletswydd hon fel “y ddyletswydd sylw dyledus”, a chyfeirir at (a), (b) ac (c) uchod fel “Rhan I o’r Confensiwn a’i Brotocolau”.

Bydd y ddyletswydd sylw dyledus yn gymwys o 1 Mai 2012 ymlaen. O 1 Mai 2012 hyd at a chan gynnwys 30 Ebrill 2014, dim ond i benderfyniadau Gweinidogion Cymru sy’n dod o fewn categorïau penodol y bydd y ddyletswydd sylw dyledus yn gymwys. Rhestrir y categorïau yn is-adran (3). Yna, o 1 Mai 2014 ymlaen, bydd y ddyletswydd sylw dyledus yn gymwys bob tro y bydd Gweinidogion Cymru’n arfer eu swyddogaethau.

Mae’r ddyletswydd sylw dyledus yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi'r pwys priodol yn holl amgylchiadau'r achos i Ran 1 o’r Confensiwn a’r Protocolau, gan eu cydbwyso â'r holl ffactorau eraill sy'n berthnasol i'r penderfyniad sydd o dan sylw.

Dylid cyfeirio at adran 8 o'r Mesur a’r Atodlen i'r Mesur er mwyn canfod pa ddarpariaethau yn Rhan I o’r Confensiwn a'i Brotocolau y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus iddynt.

Is-adran (1) – Effaith hon yw bod Gweinidogion Cymru, o 1 Mai 2014 ymlaen, yn ddarostyngedig i’r ddyletswydd sylw dyledus wrth arfer unrhyw un neu ragor o’u swyddogaethau.

Is-adran (2) – Effaith hon yw bod Gweinidogion Cymru, o 1 Mai 2012 hyd at a chan gynnwys 30 Ebrill 2014, yn ddarostyngedig i’r ddyletswydd sylw dyledus wrth wneud unrhyw benderfyniad sy’n dod o fewn y categorïau o benderfyniadau a restrir yn is-adran (3).

Is-adran (3) – Mae hon yn rhestru’r categorïau o benderfyniadau y mae’r ddyletswydd sylw dyledus yn gymwys iddynt o 1 Mai 2012 hyd at a chan gynnwys 30 Ebrill 2014. Mae’r ddyletswydd sylw dyledus yn gymwys felly i unrhyw benderfyniad gan Weinidogion Cymru ynghylch –

(a) darpariaeth y bwriedir ei chynnwys mewn deddfiad;
(b) ffurfio polisi newydd;
(c) adolygu neu newid polisi presennol .

Mae paragraff (a) yn cwmpasu nid yn unig ddarpariaeth y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu ei chynnwys mewn deddfiad ond hefyd ddarpariaeth y mae rhywun arall yn bwriadu ei chynnwys mewn deddfiad. Caiff “deddfiad” ei ddiffinio yn adran 9 ac mae’n cwmpasu Deddfau Senedd y Deyrnas Unedig, Mesurau Cynulliad a Deddfau Cynulliad ac is-ddeddfwriaeth a wneir o dan unrhyw un neu ragor o’r rhain. Felly, petai Gweinidogion Cymru yn penderfynu, er enghraifft, ar ba farn i’w mynegi wrth Lywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch darpariaeth yr oedd y llywodraeth honno yn bwriadu ei chynnwys mewn Mesur yn Senedd y Deyrnas Unedig, byddai’n ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant wrth benderfynu beth oedd eu barn.

Yn yr un modd, mae paragraffau (b) ac (c) yn cwmpasu nid yn unig bolisïau Gweinidogion Cymru, ond hefyd bolisïau perthynol i eraill. Felly, petai Gweinidogion Cymru yn yn penderfynu, er enghraifft, ar ba farn i’w mynegi wrth Lywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch polisi newydd arfaethedig y llywodraeth honno, byddai’n ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant wrth benderfynu beth oedd eu barn.

Is-adran (4) – Effaith hon yw bod cyfeiriadau yn y Mesur arfaethedig at ddyletswydd Gweinidogion Cymru o dan adran 1 yn golygu –

o ran y cyfnod o 1 Mai 2012 hyd at 30 Ebrill 2014, y ddyletswydd sylw dyledus yn is-adran (2) ac

o 1 Mai 2014 ymlaen, y ddyletswydd sylw dyledus yn is-adran (1).

Is-adran (5) – Mae hon yn peri bod Prif Weinidog Cymru pan fo’n gweithredu yn y swyddogaeth honno’n unig yn ddarostyngedig i’r un ddyletswydd sylw dyledus â Gweinidogion Cymru.

O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae Prif Weinidog Cymru yn cyfrif fel un o Weinidogion Cymru a chaiff gyflawni unrhyw swyddogaeth sydd wedi ei rhoi i Weinidogion Cymru. Pan fo Prif Weinidog Cymru yn gweithredu fel un o Weinidogion Cymru mae’n ddarostyngedig i ddyletswydd sylw dyledus Gweinidogion Cymru. Fodd bynnag, mae rhai swyddogaethau sydd wedi eu rhoi i Brif Weinidog Cymru yn unig. Effaith is-adran (5) yw bod Prif Weinidog Cymru pan fo’n gweithredu yn y swyddogaeth honno’n unig yn ddarostyngedig i’r un ddyletswydd sylw dyledus â Gweinidogion Cymru.

Er enghraifft felly, petai Llywodraeth y Deyrnas Unedig ym Mehefin 2012 yn cydymffurfio â rhwymedigaeth statudol i ymgynghori â Phrif Weinidog Cymru ynghylch darn o is-ddeddfwriaeth y mae’r llywodraeth honno yn bwriadu ei wneud, byddai penderfyniad Prif Weinidog Cymru ar sut i ymateb yn ddarostyngedig i’r ddyletswydd sylw dyledus. Mae hyn oherwydd y byddai Prif Weinidog Cymru yn ddarostyngedig i’r un ddyletswydd sylw dyledus â Gweinidogion Cymru, fel y’i gosodir yn is-adran (2), i roi sylw dyledus i Ran 1 o’r Confensiwn a’r Protocolau wrth wneud penderfyniadau ynghylch darpariaethau y bwriedir eu cynnwys mewn deddfiad.

Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i gyfeiriadau yn y Mesur arfaethedig at y ddyletswydd sylw dyledus gael eu dehongli mewn modd sy’n adlewyrchu’r ffaith bod Prif Weinidog Cymru yn ddarostyngedig i’r un ddyletswydd sylw dyledus â Gweinidogion Cymru.

**Adran 2 – Cynllun y plant**

Is-adran (1) – Mae hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud cynllun plant. Rhaid i’r cynllun osod y trefniadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, neu y bwriadant eu gwneud, er mwyn sicrhau eu bod hwy a Phrif Weinidog Cymru yn cydymffurfio â’r ddyletswydd sylw dyledus.

Is-adran (2) – Mae hon yn gwneud darpariaeth ynghylch materion eraill y caniateir eu cynnwys yng nghynllun y plant. Caiff y cynllun ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiadau ar weithrediad y cynllun neu unrhyw fater arall a grybwyllir ynddo. Yn ychwanegol, caiff y cynllun bennu materion y mae'n rhaid eu cynnwys yn yr adroddiadau hynny neu mewn adroddiadau y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu cyhoeddi o dan adran 4(1) i esbonio sut y maent hwy a Phrif Weinidog Cymru wedi cydymffurfio â'r brif ddyletswydd.

Is-adran (3) – Mae hon yn caniatáu i'r cynllun gynnwys unrhyw faterion eraill y mae Gweinidogion Cymru yn barnu eu bod yn briodol.

Is-adran (4) – Mae hon yn gwneud darpariaeth ynghylch adolygu neu ail-wneud cynllun y plant. Rhaid i Weinidogion Cymru ystyried a ddylid adolygu neu ail-wneud y cynllun cyn pen chwe mis ar ôl i'r Pwyllgor wneud unrhyw awgrym neu argymhelliad cyffredinol o dan erthygl 45(d) o'r Confensiwn, ar sail adroddiad a gyflwynir i'r Pwyllgor gan y Deyrnas Unedig o dan ei rhwymedigaeth yn erthygl 44(1)(b).

Is-adran (5) – Mae hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru adolygu neu ail-wneud cynllun y plant unrhyw bryd arall.

Is-adran (6) – Mae hon yn diffinio'r termau a ddefnyddir yn adran 2.

**Adran 3 - Llunio a chyhoeddi'r cynllun**

Is-adran (1) – Mae hon yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru, wrth iddynt lunio, ail-wneud neu adolygu cynllun y plant roi sylw i'r dogfennau canlynol –

(i) adroddiadau'r Pwyllgor ar ei weithgareddau, y mae erthygl 44(5) o'r Confensiwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor eu cyflwyno bob dwy flynedd i Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig;

(ii) unrhyw astudiaethau am faterion penodol sy'n ymwneud â hawliau'r plentyn yr ymgymerwyd â hwy gan Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig o dan erthygl 45(c) o'r Confensiwn, a

(iii) unrhyw ddogfennau eraill a ddyroddir gan y Pwyllgor sy'n ymwneud â rhoi'r Confensiwn neu'r Protocolau ar waith gan y Deyrnas Unedig, megis dogfennau sy'n ymwneud â'r Diwrnodau Trafod Cyffredinol.

Is-adran (2) – Mae hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi sylw i unrhyw ddogfennau eraill (p'un a ddyroddir hwy gan y Pwyllgor ai peidio) neu faterion eraill sydd yn eu barn hwy yn berthnasol wrth baratoi, ail-wneud neu adolygu cynllun y plant.

Is-adran (3) – Mae hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, cyn gwneud neu ail-wneud cynllun y plant gyhoeddi'r cynllun ar ffurf ddrafft. Os ydynt yn adolygu'r cynllun rhaid iddynt gyhoeddi'r adolygiadau ar eu pennau eu hunain neu'r cynllun cyfan gan gynnwys yr adolygiadau hynny.

Is-adran (4) - Mae hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymwneud ag –

(a) plant a phobl ifanc,

(b) Comisiynydd Plant Cymru

(c) y personau neu gyrff eraill y mae Gweinidogion Cymru o’r farn eu bod yn briodol,

pan fyddant yn paratoi’r cynllun drafft, neu’r drafft o unrhyw newidiadau i’r cynllun, sydd i’w gyhoeddi o dan is-adran (3).

Is-adran (5) – Mae hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, cyn gwneud, ail-wneud neu adolygu cynllun y plant, ymgynghori â phobl benodol ynghylch y drafft. Rhaid iddynt ymgynghori â phlant a phobl ifanc, Comisiynydd Plant Cymru ac unrhyw bersonau neu gyrff eraill y mae Gweinidogion Cymru yn barnu eu bod yn briodol.

Is-adran (6) – Effaith yr is-adran hon yw bod rhaid i Weinidogion Cymru beidio â gwneud neu ail-wneud y cynllun oni bai bod drafft o'r hyn sydd i'w wneud neu i'w ail-wneud wedi ei osod gerbron y Cynulliad ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan y Cynulliad. Rhaid i Weinidogion Cymru beidio ag adolygu'r cynllun oni bai bod yr adolygiadau ar eu pennau eu hunain wedi eu gosod gerbron y Cynulliad a'u cymeradwyo ganddo, neu fod y cynllun cyfan, gan gynnwys yr adolygiadau, wedi ei osod ger ei fron a'i gymeradwyo ganddo.

Is-adran (7) – Mae hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod drafft o’r cynllun plant cyntaf gerbron y Cynulliad ar 31 Mawrth 2012 neu cyn hynny.

Is-adran (8) - Mae hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi’r cynllun plant pan gaiff ei wneud a pha bryd bynnag y caiff ei ail-wneud. Pan fônt wedi adolygu'r cynllun, caniateir iddynt gyhoeddi'r adolygiadau ar eu pennau eu hunain neu'r cynllun cyfan gan gynnwys yr adolygiadau.

Is-adran (9) – Mae hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod gerbron y Cynulliad y ddogfen y maent wedi ei chyhoeddi o dan is-adran (8), p'un ai'r cynllun cyfan yw honno ynteu adolygiadau i'r cynllun.

Is-adran (10) – Mae hon yn diffinio'r termau a ddefnyddir yn adran 3.

**Adran 4 - Adroddiadau**

Is-adran (1) – Mae hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiadau ynghylch sut y maent hwy a Phrif Weinidog Cymru wedi cydymffurfio â’r ddyletswydd sylw dyledus. Rhaid i'w hadroddiad cyntaf gael ei gyhoeddi ar neu cyn 31 Ionawr 2013. Ar ôl hynny, rhaid iddynt gyhoeddi adroddiad bob pum mlynedd.

Bydd yr adroddiadau’n ymwneud â chydymffurfio â’r ddyletswydd sylw dyledus fel y’i gosodir yn adran 1(1), neu fel y’i gosodir yn adran 1(2), neu’r ddau, yn dibynnu ar pa gyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad. Bydd yr adroddiad cyntaf, sydd i’w gyhoeddi ar 31 Ionawr 2013 neu cyn hynny, yn cwmpasu cyfnod pan y ddyletswydd sylw dyledus fel y’i gosodir yn adran 1(2)

sy’n gymwys; â chydymffurfio â’r  ddyletswydd sylw dyledus honno y bydd yr adroddiad felly yn ymwneud.

Yn ystod y pum mlynedd ddilynol, y ddyletswydd sylw dyledus fel y’i gosodir yn adran 1(2) fydd yn gymwys dros ran gyntaf y cyfnod hwnnw, tra bydd y ddyletswydd sylw dyledus fel y’i gosodir yn adran 1(1) yn gymwys dros ail ran y cyfnod hwnnw. Bydd adroddiad sy’n cwmpasu’r pum mlynedd hynny felly yn ymwneud â chydymffurfio’n unol â’r sefyllfa honno.

Mae amseriad yr adroddiadau hyn wedi ei fwriadu i gyd-fynd ag amseriad adroddiadau'r Deyrnas Unedig i'r Pwyllgor ar y cynnydd y mae'r Deyrnas Unedig wedi ei wneud tuag at sicrhau'r hawliau sydd wedi eu cynnwys yn narpariaethau'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol. O dan Erthygl 44(1)(b) o'r Confensiwn, mae'n rhaid i'r Deyrnas Unedig gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor bob pum mlynedd. Caiff cynllun y plant bennu bod Gweinidogion Cymru i gyhoeddi eu hadroddiadau o fewn ysbeidiau hwy neu rai byrrach.

Is-adran (2) – Effaith hon, os yw cynllun y plant wedi ei gwneud yn ofynnol (fel y caiff ei gwneud o dan adran 2(2)(a)),  i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad ar weithrediad y cynllun neu unrhyw fater a grybwyllir ynddo, yw bod rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r adroddiad hwnnw.

Is-adran (3) – Mae hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod gerbron y Cynulliad adroddiadau y byddant yn eu cyhoeddi o dan adrannau 4(1) neu 4(2).

**Adran 5 – Dyletswydd i hybu gwybodaeth o'r Confensiwn**

Mae hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gymryd unrhyw gamau y maent yn barnu eu bod yn briodol i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd o'r Confensiwn a'r Protocolau Dewisol. Mae'r ddarpariaeth yn egluro bod y “cyhoedd” yn cynnwys plant.

Mae'r ddarpariaeth hon wedi ei seilio i raddau helaeth ar erthygl 42 o'r Confensiwn ac erthygl 6(2) o'r Protocol Dewisol ar gynnwys plant mewn gwrthdrawiadau arfog, y mae Gwladwriaethau wedi ymrwymo ynddynt i wneud egwyddorion a darpariaethau'r Confensiwn a'r Protocol hwnnw yn adnabyddus i lawer o oedolion a phlant. Er hynny, mae adran 5 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru hybu dealltwriaeth, yn ogystal â gwybodaeth, ymhlith y cyhoedd.

Dylid cyfeirio at adran 1(1), adran 8, a'r Atodlen i'r Mesur er mwyn canfod cynnwys y darpariaethau sydd yn y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru hybu gwybodaeth a dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd amdanynt.

**Adran 6 – Pŵer i ddiwygio deddfwriaeth etc**

Is-adran (1) – Effaith hyn yw nodi o dan ba amgylchiadau y mae pŵer Gweinidogion Cymru o dan adran 6 i ddiwygio deddfwriaeth benodol ac

offerynnau uchelfreiniol penodol yn cael ei sbarduno. Mae cyfyngiadau ar y pŵer ac maent wedi eu nodi yn adran 6.

Bydd gan Weinidogion Cymru y pŵer hwnnw os byddant, mewn adroddiad y maent wedi ei gyhoeddi o dan adran 4, wedi dod i'r casgliad y byddai'n ddymunol diwygio deddfwriaeth benodol neu offerynnau uchelfreiniol penodol er mwyn rhoi effaith bellach neu effaith well i'r hawliau a'r rhwymedigaethau a nodir yn Rhan I o'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol.

Y mathau o ddeddfwriaeth y caniateir eu diwygio drwy ddefnyddio’r pŵer hwn yw Deddfau Senedd y Deyrnas Unedig, Mesurau a Deddfau’r Cynulliad ac is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan unrhyw un neu ragor o’r rheini (gweler adran 9 sy’n cynnwys y diffiniad o “deddfiad”). Mae gorchmynion, rheolau a rheoliadau yn enghreifftiau o fathau o is-ddeddfwriaeth.

Is-adran (2) – Mae hon yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy ddefnyddio'r pŵer hwn, wneud diwygiadau i ddeddfwriaeth neu offerynnau uchelfreiniol sydd yn eu barn hwy yn briodol yng ngoleuni adroddiad y byddant wedi ei gyhoeddi o dan adran 4. Mae Gweinidogion Cymru i wneud y diwygiadau drwy wneud gorchymyn.

Is-adran (3) – Effaith hon yw na fydd Gweinidogion Cymru yn gallu defnyddio'r pŵer hwn i wneud diwygiadau i ddeddfwriaeth neu offerynnau uchelfreiniol ac eithrio os yw'r diwygiadau hynny'n rhai y mae gan y Cynulliad, ar yr adeg benodol honno, bŵer deddfwriaethol i'w gwneud.

Adeg deddfu'r Mesur hwn, mae pŵer deddfwriaethol y Cynulliad yn cael ei lywodraethu gan Ran 3 (Mesurau'r Cynulliad) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Dylid cyfeirio at adran 94 o’r Ddeddf honno ac Atodlen 5 iddi er mwyn gweld y Materion y caiff y Cynulliad basio Mesurau yn eu cylch. Yn y dyfodol, caiff pŵer deddfwriaethol y Cynulliad ei lywodraethu yn lle hynny gan Ran 4 (Deddfau'r Cynulliad) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn dilyn pleidlais “ie” mewn refferendwm yng Nghymru.

Is-adran (4) – Mae hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â phwy bynnag sy'n briodol yn eu barn hwy cyn iddynt wneud gorchymyn drwy ddefnyddio'r pŵer hwn.

Rhaid i Weinidogion Cymru beidio â gwneud gorchymyn yn defnyddio’r pŵer hwn onid oes drafft ohono wedi ei osod gerbron y Cynulliad a’i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad (gweler adran 10(2)).

**Adran 7 – Cymhwyso i bobl ifanc**

Pwrpas y darpariaethau yn yr adran hon yw ei gwneud yn ofynnol i Ran I o'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol, neu ddarpariaethau’r Mesur hwn, gael eu hystyried a chaniatáu potensial iddynt gael eu cymhwyso'n briodol mewn perthynas â phobl ifanc.

Is-adran (1) – Mae hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried a all gofynion Rhan I o'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol fod yn berthnasol i bobl ifanc ac i ba raddau, ac a allai darpariaethau'r Mesur hwn gael eu cymhwyso i bobl ifanc ac i ba raddau.

Mae hyn yn cynnwys ystyried a allai Rhan I o'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol fod yn berthnasol i bobl ifanc, neu a allai'r Mesur hwn gael ei gymhwyso mewn perthynas â hwy, ar ffurf ddiwygiedig.

Mae'r term "pobl ifanc" wedi ei ddiffinio yn adran 9 a'i ystyr yw pobl 18 i 24 mlwydd oed (h.y., y rhai sydd o dan 25 oed).

Is-adran (2) – Mae hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, y tro cyntaf y byddant yn gwneud ac yn cyhoeddi cynllun y plant, gynnwys yn y cynllun hwnnw eu bwriadau i ymgynghori ar berthnasedd Rhan I o'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol i bobl ifanc, a chymhwysiad posibl y Mesur iddynt.

Is-adran (3) – Mae hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru, ochr yn ochr â'r ymgynghori o dan is-adran (2), ymgynghori hefyd ar unrhyw fater arall sy'n ymwneud â phobl ifanc ac sydd yn eu barn hwy yn briodol. Caiff hynny gwmpasu ymgynghori ynghylch a oes ffyrdd eraill sy'n fwy priodol i fynd i'r afael â hawliau pobl ifanc.

Is-adran (4) – Mae hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad ar eu casgliadau o dan is-adran (1) ynghylch perthnasedd Rhan I o'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol i bobl ifanc, a chymhwysiad posibl y Mesur iddynt.

Is-adran (5) – Mae hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod gerbron y Cynulliad gopi o'r adroddiad y maent wedi ei gyhoeddi o dan is-adran (4).

Is-adrannau (6) a (7) – Mae'r rhain yn caniatáu i Weinidogion Cymru gymhwyso drwy wneud gorchymyn y cyfan o'r Mesur hwn, neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo o ran pobl ifanc. Cânt wneud hynny ar ffurf sydd wedi ei haddasu os mai hynny sydd yn eu barn hwy yn briodol. Caiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw ddarpariaeth arall hefyd sydd yn eu barn hwy yn briodol i gymhwyso gofynion Rhan I o'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol o ran pobl ifanc.

Is-adran (8) – Mae hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, cyn gwneud gorchymyn o dan is-adran (6), gyhoeddi'r gorchymyn ar ffurf ddrafft ac ymgynghori ynghylch y drafft hwnnw â phwy bynnag sydd yn eu barn hwy yn briodol.

Rhaid i Weinidogion Cymru beidio â gwneud gorchymyn yn defnyddio'r pŵer hwn onid oes drafft ohono wedi ei osod gerbron y Cynulliad a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad (gweler adran 10(2)).

**Adran 8 – Y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn**

Is-adran (1) – Mae hon yn esbonio beth yw ystyr "y Confensiwn" ac "y Protocolau" yn y Mesur hwn.

ystyr "y Confensiwn" yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a fabwysiadwyd ac a agorwyd i'w lofnodi, ei gadarnhau a'i gytuno gan benderfyniad 44/25 Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig, dyddiedig 20 Tachwedd 1989.

ystyr "y Protocolau" yw Erthyglau 1 i 7, gan eithrio erthygl 6(2) o'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar gynnwys plant mewn gwrthdrawiadau arfog, ac Erthyglau 1 i 10 o'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar werthu plant, puteindra plant a phornograffi plant.

Erthygl 6(2) o'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar gynnwys plant mewn gwrthdrawiadau arfog yw'r ddarpariaeth y mae Gwladwriaethau wedi ymrwymo odani i wneud egwyddorion a darpariaethau'r Protocol hwnnw yn adnabyddus i oedolion a phlant. Mae adran 5 o'r Mesur yn gosod Gweinidogion Cymru o dan ddyletswydd sy'n debyg i'r ymrwymiad hwnnw.

Is-adran (2) – Mae hon yn darparu bod yr Atodlen i'r Mesur hwn ("yr Atodlen") yn rhoi testun:

(1) Rhan I o'r Confensiwn (nid yw'r Rhaglith, a Rhannau II a III sy'n ymwneud â materion gweithdrefnol a materion tebyg mewn perthynas â'r Cenhedloedd Unedig, wedi eu cynnwys) – mae hon yn Rhan 1 o'r Atodlen,

(2) Y ddau Brotocol Dewisol fel a grybwyllwyd uchod yn y nodyn esboniadol hwn am adran 8 – mae'r rhain yn Rhan 2 o'r Atodlen,

(3) Datganiadau gan y Cenhedloedd Unedig i'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol – mae'r rhain yn Rhan 3 o'r Atodlen.

Is-adran (3) – Effaith hon yw, pryd bynnag y mae angen cyfeirio at ofynion y Confensiwn neu'r Protocolau, at ddibenion y Mesur hwn (er enghraifft, pan fo Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio â'r ddyletswydd sylw dyledus i gyflawni rhyw swyddogaeth benodol), yna yr hyn y mae'n rhaid cyfeirio ato yw'r testun a geir, ar yr adeg benodol honno, yn Rhannau 1 a 2 o'r Atodlen.

Er hynny, rhaid i'r testun hwnnw gael ei ddarllen yn ddarostyngedig i unrhyw ddatganiadau neu neilltuadau a roddir ar yr adeg benodol honno yn Rhan 3 o'r Atodlen. Adeg deddfu'r Mesur hwn nid oes unrhyw neilltuadau gan y Deyrnas Unedig i'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol ac felly nid oes unrhyw un yn ymddangos yn Rhan 3 o'r Atodlen. Mae pwerau a rhwymedigaethau

Gweinidogion Cymru i ddiwygio Rhan 3 yn ymddangos yn is-adrannau (5), (7) ac (8).

Is-adrannau (4) a (5) – Mae'r darpariaethau hyn yn berthnasol os yw'r Deyrnas Unedig wedi llofnodi neu wedi mynegi ei bod yn cytuno ag unrhyw un neu rai o'r canlynol, ond ei bod heb ei gadarnhau neu eu cadarnhau mewn gwirionedd:

(i) diwygiad i'r Confensiwn a roddir ar yr adeg benodol honno yn Rhan 1 o'r Atodlen,

(ii) diwygiad i'r Protocolau a roddir ar yr adeg benodol honno yn Rhan 2 o'r Atodlen, neu

(iii) Protocol newydd.

O dan yr amgylchiadau hynny, caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio adran 1(1), 8(1), 8(2), 8(3) neu’r Atodlen i adlewyrchu:

(i) diwygiad i'r Confensiwn neu'r Protocolau,

(ii) y Protocol newydd, neu

(iii) unrhyw ddatganiad neu neilltuad gan y Deyrnas Unedig i'r Confensiwn neu'r Protocolau diwygiedig, neu i'r Protocol newydd.

Is-adrannau (6) a (7) - Mae'r darpariaethau hyn yn berthnasol os yw'r Deyrnas Unedig wedi cadarnhau:

(i) diwygiad i'r Confensiwn a roddir ar yr adeg benodol honno yn Rhan 1 o'r Atodlen,

(ii) diwygiad i'r Protocolau a roddir ar yr adeg benodol honno yn Rhan 2 o'r Atodlen, neu

(iii) Protocol newydd.

O dan yr amgylchiadau hynny, rhaid i Weinidogion Cymru ddiwygio adran 1(1), 8(1), 8(2), 8(3) neu’r Atodlen i adlewyrchu:

(i) y diwygiad i'r Confensiwn neu'r Protocolau,

(ii) y Protocol newydd, neu

(iii) unrhyw ddatganiad neu neilltuad gan y Deyrnas Unedig i'r Confensiwn diwygiedig neu'r Protocolau diwygiedig, neu i'r Protocol newydd.

Is-adran (8) – Effaith hon yw ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddiwygio'r testun yn Rhan 3 o'r Atodlen (datganiadau a neilltuadau gan y Deyrnas

Unedig) fel bod Rhan 3 yn adlewyrchu unrhyw newidiadau i'r datganiadau a'r neilltuadau y mae'n eu cynnwys.

Mae'n rhaid gosod unrhyw orchymyn a wneir o dan yr adran hon gerbron y Cynulliad ar ffurf ddrafft cyn iddo gael ei wneud a rhaid i gyfnod penodol o amser fynd heibio cyn y gellir ei wneud (gweler adran 10(4), 10(5) a 10(6).

**Adran 9 – Darpariaethau dehongli eraill**

Mae hon yn diffinio amrywiol dermau a ddefnyddir yn y Mesur.

**Adran 10– Gorchmynion**

Is-adran (1) – Mae hon yn darparu fod rhaid gwneud unrhyw offeryn a wneir o dan y Mesur hwn drwy offeryn statudol. Mae hyn yn golygu bod yr offeryn yn ddarostyngedig i ofynion gweithdrefnol a gofynion eraill a osodir yn Neddf Offerynnau Statudol 1946.

Is-adran (2) - Mae hon yn darparu bod rhaid peidio â gwneud gorchymyn o dan adran 6 (y pŵer i ddiwygio deddfwriaeth) na 7 (cymhwyso i bobl ifanc) oni bai bod drafft o'r gorchymyn wedi ei osod gerbron y Cynulliad a'i gymeradwyo drwy benderfyniad gan y Cynulliad.

Is-adran (3) – Mae hon yn darparu bod rhaid i 40 o ddiwrnodau (wedi'u cyfrifo yn unol ag is-adran (6)) fynd heibio cyn y gall y Cynulliad bleidleisio i gymeradwyo neu i wrthod drafft o orchymyn o dan adran 6 neu 7. Pwrpas y ddarpariaeth hon yw sicrhau bod gan y Cynulliad isafswm penodol o amser i graffu ar ddrafftiau o orchmynion o dan adran 6 neu 7, cyn gorfod penderfynu a fyddant yn pleidleisio i'w cymeradwyo.

Is-adran (4) – Mae hon yn darparu bod rhaid gosod drafft o orchymyn o dan adran 8 (y pŵer i adlewyrchu newidiadau i'r Confensiwn etc) gerbron y Cynulliad cyn y gellir ei wneud, ac na ellir ei wneud hyd nes y bydd 40 o ddiwrnodau (wedi'u cyfrifo yn unol ag is-adran (6)) wedi mynd heibio. Pwrpas y ddarpariaeth hon yw rhoi cyfle i'r Cynulliad graffu ar Orchmynion o dan adran 8 yn eu ffurf ddrafft cyn bod Gweinidogion Cymru yn eu gwneud.

Is-adran (5) – Mae hon yn darparu nad yw adran 6(1) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 yn gymwys i ddrafft o orchymyn o dan adran 8. Heb is-adran (5), effaith adran 6(1) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 fyddai rhwystro Gweinidogion Cymru rhag gwneud gorchymyn o dan adran 8 petai'r Cynulliad yn pasio penderfyniad na ddylent wneud hynny.

Is-adran (6) – Mae hon yn darparu sut y mae'r cyfnod o 40 o ddiwrnodau y cyfeirir ato yn is-adrannau (3) a (4) i'w gyfrifo.

**Adran 11- Cychwyn**

Mae hon yn darparu bod y Mesur yn dod i rym pan fydd deufis wedi mynd heibio ar ôl dyddiad deddfu'r Mesur. Mae Mesur wedi ei ddeddfu pan fydd

wedi ei basio gan y Cynulliad a'i gymeradwyo wedyn gan Ei Mawrhydi mewn cyfarfod o'r Cyfrin Gyngor.

**Adran 12 – Enw byr**

Mae hon yn darparu y ceir cyfeirio at y Mesur hwn fel Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2010.